**Agenda Eitem Rhif 2**

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Tŷ Russell, Ffordd Churton, Rhyl ddydd Llun, 3 Gorffennaf, 2006 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr G.C. Evans, C.L. Hughes, M.M. Jones a G.J. Pickering

**Yn cynrychioli Cydbwyllgor Amodau Athrawon Sir Ddinbych**

M.B. Lloyd (Cadeirydd), I. Barros-Curtis, M. Bradshaw a J. Buckley Jones

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

Y Parch. P.J. Collinson, H. Ellis, S. Harris, y Parch. B.H. Jones, J. Kirkham a P. Speirs

### YN BRESENNOL HEFYD

Arolygydd/Ymgynghorydd AG (G. Craigen) a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

### CAFWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB GAN

T. Bryer, M. Evans, M. Hatch, y Parch. Athro L.J. Frances, T. Ap Siôn (dirprwy'r Parch. Athro L.J. Francis) a'r Cynghorwyr G.A. Jones a D. Owens

Er nad yw'n aelod o CYSAG, roedd y Cynghorydd R.E. Barton yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd a hefyd wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau am absenoldeb.

### MYFYRIO MEWN TAWELWCH

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrio tawel.

### 1. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2006 (a gylchredwyd yn flaenorol), fel y'u cymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 4 Ebrill, 2006.

**Cywirdeb -**

Fel mater o gywirdeb dywedodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod diwethaf a gyflwynwyd gan y Parch. Athro L.J. Francis a gafodd ei gamsillafu yn 'Frances' yn y cofnodion.

**Materion a Gododd -**

Tudalen 3 – Eitem Rhif 2 Cofnodion: Materion a Gododd – Adroddiad Monitro ac Adolygiad Ategol – Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am drafodaethau parhaus gydag Esgobaeth Wrecsam ynglŷn â monitro ysgolion Catholig. O ystyried bod pob ysgol Gatholig yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir gydag Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd dan nawdd yr Esgobaeth, roedd yn debygol y byddai'r Esgobaeth yn gwneud y gwaith monitro ac yn cyflwyno adroddiadau i CYSAG mewn modd tebyg i'r adroddiadau monitro cyfredol a gyflwynir gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG. Roedd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r mater ynghylch ysgolion uwchradd ac roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol rhwng Cyfarwyddwr yr Esgobaeth a'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny yn cael ei hadrodd i'r cyfarfod CYSAG nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**2. CYFLWYNIAD – ADDYSG GREFYDDOL YN YSGOL GYNRADD ST. BRIGID, DINBYCH**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ymddiheuriadau ynghylch absenoldeb cynrychiolydd o'r ysgol i roi cyflwyniad heddiw. Yn anffodus, nid oedd y sawl y trefnwyd iddo roi'r cyflwyniad yn gallu mynychu ar y funud olaf a bu'n rhy hwyr i ddod o hyd i rywun yn ei le. Cytunwyd aildrefnu'r cyflwyniad ar gyfer cyfarfod nesaf CYSAG ym mis Hydref.

**3. ADRODDIAD AM BROFIAD UGANDA – CHWEFROR/MAWRTH 2006**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG gyflwyniad PowerPoint am ei ymweliad diweddar ag Uganda yn rhan o ddirprwyaeth yn ymweld ag ysgolion a chymunedau yn ystod mis Chwefror/Mawrth 2006 drwy elusen Christian Relief Uganda.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Christian Relief Uganda wedi'i leoli yn Maria's Care yn Uganda sef Cartref Plant, Uned i'r Byddar, Canolfan Gofal Dydd, Ysgol Gynradd a oedd hefyd yn cynnig hyfforddiant a sgiliau bywyd. Dangosodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG nifer o ffotograffau a gymerwyd yn ystod yr ymweliad a soniodd am y cynnydd sylweddol a wnaed ers ei ymweliad diwethaf yn yr ysgolion, y colegau a'r cymunedau ac effaith y gwaith elusennol ar ansawdd bywyd oedolion a phlant. Adroddodd hefyd am weithgareddau penodol gyda gwahanol sefydliadau a theuluoedd yn Uganda ac yn ystod y daith bedair wythnos ymwelwyd â'r mannau canlynol: Hope Destitute Children's Centre, Lukaya; Lukaya Polytechnic College; St. Paul's CU Primary School, Bulega; Modern Primary School, Ntabwe a Golden Christian College, Nsaggu.

I gau, atgoffodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yr aelodau mai dyma oedd ei bumed ymweliad ag Uganda a bod pob ymweliad yn brofiad arbennig a'i fod yn edrych ymlaen at ddychwelyd.

Bu'r Cadeirydd yn diolch i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am rannu ei brofiadau gyda CYSAG a bu'r aelodau yn talu teyrnged i'r gwaith elusennol gwych y bu'n ei wneud. Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno'r gorau i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar gyfer unrhyw brosiectau yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y cyflwyniad gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi'i dderbyn a'i nodi.*

## 4. DETHOLIADAU O ADRODDIAD BLYNYDDOL PRIF AROLYGYDD EI MAWRHYDI DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT YNG NGHYMRU 2004-05

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ddetholiadau o Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (a gylchredwyd yn flaenorol) gan nodi:-

- Bod gwaith gorau disgyblion ar draws Cyfnod Allweddol 1 a 2 mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol
- Yn 2005 roedd cynnydd mawr mewn disgyblion yn gwneud pynciau cwrs byr TGAU gan gynnwys nifer fawr barhaus yn dewis gwneud Astudiaethau Crefyddol
- Yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 canfuwyd y safonau uchaf mewn: Saesneg, Cymraeg fel iaith gyntaf, daearyddiaeth, ieithoedd tramor modern, technoleg gwybodaeth ac addysg grefyddol
- Bod nodweddion eithriadol yn perthyn i ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion (mewn ysgolion cynradd) ym mron dwy o bob pum ysgol. Roedd gwasanaethau ysgolion yn chwarae rhan bwysig yn helpu disgyblion i ddysgu gofalu am bobl eraill.
- Bod llawer mwy (o ysgolion uwchradd) yn darparu addoli ar y cyd bob diwrnod o'r wythnos. Fodd bynnag, roedd mwy nag un o bob chwech o'r ysgolion a arolygwyd yn dal i fethu cadw'n llawn at y gyfraith ynghylch addoli ar y cyd dyddiol.

Cyfeiriwyd hefyd at yr atodiadau i'r adroddiad a ddarparai ystadegau i amlygu'r sylwadau cryno hynny ar gyfer pob un o'r Cyfnodau Allweddol gan ddangos nifer y gwersi a gyflawnodd raddau 1 i 5 ar gyfer y pynciau yng Nghyfnodau Allweddol 1 – 4 ac yn y chweched dosbarth ar gyfer ysgolion a arolygwyd yn 2004-05.

Wrth ystyried y detholiadau roedd yr aelodau'n falch o weld bod AG gystal â phynciau craidd eraill ar gyfer gwaith gorau disgyblion ar draws Cyfnod Allweddol 1 a 2 a bod y safonau uchaf ym mhynciau Cyfnod Allweddol 3 a 4 hefyd yn cynnwys AG. Yr unig gyfeiriad negyddol oedd bod mwy nag un o bob chwe ysgol uwchradd a arolygwyd wedi methu darparu'r addoli ar y cyd dyddiol sy'n ofynnol. Gobeithiai Estyn fynd i'r afael â'r mater hwn drwy lunio arweiniad i ysgolion i ddiffinio pa weithredoedd addoli ar y cyd y mae arolygwyr yn eu cydnabod felly. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr anawsterau a gaiff ysgolion uwchradd wrth sicrhau gweithredoedd addoli ar y cyd dyddiol a gobeithiodd y byddai Estyn yn cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar hynny cyn gynted â phosibl.

Yn olaf, nododd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych wedi cydnabod ar gyfer yr un cyfnod (2004-05) fod arfer da wedi'i nodi a bod safonau wedi parhau i wella. Croesawodd yr aelodau'r adroddiad a:-

***PENDERFYNWYD** fod y detholiadau o Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2004 – 2005 wedi'u derbyn a'u nodi.*

**5. ADRODDIAD AM DDARPARIAETH AG YNG NGHONSORTIWM YSGOLION Y RHYL**

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) am y ddarpariaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol Uwchradd Rhyl ac ysgolion canlynol y dalgylch: Ysgol Bryn Hedydd; Ysgol Gynradd Christchurch; Ysgol Gynradd Emmanuel, Ysgol Gynradd Llewelyn ac Ysgol y Castell, Rhuddlan. (Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod plant Ysgol y Castell yn mynd yn bennaf i Ysgol Emrys Ap Iwan, Abergele sydd y tu allan i'r sir ac felly cafodd yr ysgol ei chynnwys yng nghonsortiwm Rhyl at ddibenion monitro).

Yn dilyn ymweliadau gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG â phob un o'r ysgolion yn ystod tymor y gwanwyn, cytunwyd adroddiad o'r ysgolion a materion a chanlyniadau â'r ysgol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y nodweddion da, y diffygion a'r argymhellion ar gyfer pob ysgol ynghyd â chrynodeb cyffredinol o'r consortiwm cyfan. Bu'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn atgoffa'r aelodau fod y broses fonitro yn rhan o'r hunan arfarniad a'r adolygiad ategol a gytunwyd ag ysgolion cyn cael eu cyflwyno i CYSAG, ac y bu'n brofiad cadarnhaol ac yn broses ddefnyddiol i'r ysgolion. Ac eithrio Blessed Edward Jones, Glan Clwyd a St. Brigid's, roedd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi ymweld bellach â phob un o ysgolion uwchradd y sir. Cafodd aelodau wybod hefyd fod y broses newydd wedi cael ei thrafod yng nghyfarfod diwethaf PYCAG a bod y pedwar awdurdod (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) sy'n dilyn yr arfer hwnnw wedi cael eu canmol am yr ymagwedd ddefnyddiol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod llawer i'w ddathlu o ran y nodweddion da yn ysgolion consortiwm Rhyl, yn benodol:-

- cynllunio a darparu/cyflwyno addoli ar y cyd
- polisïau a chynlluniau gwaith sy'n ddogfennau clir, cynhwysfawr a defnyddiol/ cyfeillgar i athrawon
- prosesau monitro wedi'u sefydlu, gyda strwythur clir o ran pynciau eraill/rhannu canlyniadau ohono
- ystod dda o weithgareddau a thasgau yn amlwg yng ngwaith disgyblion
- cysylltiadau â'r gymuned ffydd leol

Ar y cyfan, rhestrwyd wyth ar hugain o nodweddion da ar draws y chwe ysgol a oedd yn sicr yn werth eu dathlu a llongyfarch ysgolion yn eu cylch. Mewn ymateb i gwestiwn aelod am y tân yn Ysgol Uwchradd Rhyl, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod y tân wedi dechrau yn y storfa AG ac wedi

dinistrio'r holl ddeunyddiau AG. Fodd bynnag, cymeradwywyd yr ysgol am ei hymateb cadarnhaol ar ôl y profiad hwnnw ac am gael deunyddiau adnodd newydd yn lle'r rhai a ddinistriwyd wedi hynny.

Adroddodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG mai, yn y consortiwm hwn, un mater yn unig a gafwyd mewn meysydd ar gyfer datblygiad a rannwyd ar draws mwy nag un ysgol a oedd yn ymdrin ag asesu cyflawniad disgyblion a phroses gofnodi (5 ysgol). Roedd hyn yn syndod o ystyried bod yr AALI/CYSAG wedi cyhoeddi Canllawiau am Asesu mewn AG a bod ACCAC wedi cyhoeddi Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer AG. Fodd bynnag, bu asesu yn y pynciau sylfaen yn broblem a fu'n datblygu a thros y blynyddoedd rhoddwyd y sylw pennaf i bynciau craidd.

Roedd yr aelodau'n falch o weld pa mor dda'r oedd y broses yn gweithio a'r manteision i'r ysgolion dan sylw a bu'r Cadeirydd yn diolch yn arbennig i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei holl waith caled yn hynny o beth. Bu Mrs. S. Harris hefyd yn talu teyrnged i waith yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am y cyflawniadau ac i sicrhau bod y broses yn llwyddo.

***PENDERFYNWYD*** *bod:-*

*(a)* *yr adroddiad wedi'i dderbyn a'i nodi, a*

*(b)* *bydd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd i'w llongyfarch am y nodweddion cadarnhaol yn eu hadroddiadau ac i gynnig unrhyw wasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.*

## 6. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU AM YSGOLION

Cyflwynodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) am y sylwadau cadarnhaol a negyddol ynghylch Addysg Grefyddol a'r Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) a arolygwyd mewn chwe ysgol rhwng mis Hydref 2005 a mis Mawrth 2006 ynghyd â hanes byr o gefndir pob ysgol. Cynhaliwyd arolygiadau yn Ysgol Bro Cinmeirch; Ysgol Tremeirchion; Ysgol Dyffryn Iâl; Ysgol Uwchradd Dinbych; Ysgol Carrog ac Ysgol Hiraddug. Atgoffwyd aelodau nad yw AG bob amser yn cael ei chynnwys yn bwnc yn y broses arolygu, ac mai dyma a ddigwyddodd ar gyfer tair o'r ysgolion a restrwyd yn yr adroddiad.

Darparodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG grynodeb byr i'r aelodau o'r canfyddiadau mewn perthynas â phob ysgol, gan esbonio ac egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny. Siomedig oedd nodi bod gan un ysgol fater allweddol ar gyfer YMCD wrth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig mewn cynllunio tymor byr gan fod yr ysgol wedi gwneud llawer o waith ond heb ei ddangos yn y broses gynllunio. Fodd bynnag, roedd yn galonogol gweld y 94 sylw cadarnhaol ar gyfer YMCD ar draws y chwe ysgol a arolygwyd. Roedd mwy o sylwadau ar gyfer Ysgol Tremeirchion gan fod yr ysgol honno wedi cael adroddiad Adran 10 ac Adran 50. Dim ond 12 o sylwadau negyddol a gafwyd ar draws tair ysgol yn unig heb unrhyw achos pryder penodol. O ran Addysg Grefyddol, soniwyd am fater allweddol mewn un ysgol yn unig i godi safonau Cymraeg yn y ddau gyfnod allweddol mewn AG yn CA2 ac roedd yr ysgol wedi mynd i'r afael â'r mater hwnnw yn ei chynllun gweithredu. Cafodd pob un o'r tair ysgol yr un nifer o sylwadau cadarnhaol, sef

cyfanswm o 52, gyda 5 sylw negyddol yn unig ar draws dwy ysgol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn eu cynllun gweithredu.

Talodd yr aelodau deyrnged i gyflawniadau'r ysgolion a llongyfarch yr ysgolion hynny am y canfyddiadau cadarnhaol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r ysgolion gael eu llongyfarch am eu hadroddiadau, yn ôl yr arfer. Bu'n diolch hefyd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am lunio'r adroddiad i CYSAG a ddarparodd darlun cyffredinol o'r safonau mewn ysgolion.

***PENDERFYNWYD*** *bod:-*

*(a) yr adroddiad wedi'i dderbyn a'i nodi, a*

*(b) bydd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn ysgrifennu at yr ysgolion a arolygwyd i'w llongyfarch am eu hadroddiadau ac i gynnig unrhyw wasanaethau o ran mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.*

## 7. ADRODDIADAU ACCAC (AADGOS BELLACH)

### (a) Adolygiad o Adroddiadau CYSAG 2002 – 2003 a 2003 – 2004

Cafodd cyhoeddiad ACCAC o'r Adolygiad o Adroddiadau CYSAG ar gyfer 2002 – 2003 a 2003 – 2004, ynghyd â Chrynodeb Gweithredol ac Ymatebion i'r Adolygiad, ei gylchredeg yn flaenorol gyda'r agenda. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau nodi bod ACCAC wedi peidio â bodoli ers 31 Mawrth 2006 a'i fod bellach yn rhan o AADGOS (yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau).

Nododd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG y soniwyd am Sir Ddinbych sawl gwaith drwy'r adroddiad ac y cyfeiriwyd at y gweithdrefnau a sefydlwyd i barhau'r broses monitro safonau mewn AG o ganlyniad i fframwaith arolygu newydd Estyn. Dywedodd y gallai fod tybiaeth nad oedd CYSAG Sir Ddinbych wedi rhoi arweiniad ar Addoli ar y Cyd nac hyfforddiant i aelodau CYSAG a llywodraethwyr ysgol gan na soniwyd yn benodol am y camau hynny yn Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych. Fodd bynnag, cafwyd cyfeiriad at gynnig Sir Ddinbych o gefnogaeth i ysgolion yn dilyn arolygu a monitro'r ddarpariaeth Addoli ar y Cyd mewn ysgolion. Yn yr un modd, cafwyd hyfforddiant i aelodau CYSAG a llywodraethwyr ysgol yn y gorffennol ond ni soniwyd amdano yn yr Adroddiad Blynyddol.

Bu'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG yn sôn wrth yr aelodau am ei ymatebion i'r materion a godwyd yn Adolygiad ACCAC (a gylchredwyd yn flaenorol) ac eglurodd materion penodol fel a ganlyn:-

- O ystyried y newidiadau gyda dyfodiad y Gronfa Ysgolion Gwell (CYG) a'r diffyg cyllid sydd ar gael i gyrsiau AG, ni ddarparwyd y sesiwn Hyfforddiant Mewn Swydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Roedd y gostyngiad yn y math hwn o hyfforddiant yr un fath ledled Cymru. Roedd CCYSAGC wedi codi'r mater hwn ar sawl achlysur gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ar nodyn mwy cadarnhaol, roedd dau gwrs yn cael eu cynnig ar gyfer tymor yr hydref 2006 o dan feini prawf CYG penodol, ac

- Adnoddau a Hyfforddiant Athrawon AG – nid oedd CYSAG wedi cynghori ysgolion yn ffurfiol am ddewis adnoddau addysgu ond cynigiwyd cyngor drwy HMS a gwaith yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG. Ni chyfeiriwyd at y materion hynny yn benodol mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Cafwyd arweiniad ar ddulliau addysgu a dysgu drwy'r arweiniad Maes Llafur Cytûn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd G.J. Pickering, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gweithredu'r argymhellion a gododd o'r ymweliadau monitro ar unwaith neu cyn gynted â phosibl wedyn. Byddai'n dechrau ailymweld ag ysgolion yn ystod tymor yr hydref 2007 pan ellid defnyddio'r adroddiadau monitro blaenorol yn fan cychwyn ar gyfer yr ymweliadau hynny. O ran y diffyg cyllid ar gyfer cyrsiau AG yn dilyn newidiadau i'r ddarpariaeth gyllido, cadarnhaodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod pryderon am y mater hwnnw wedi'u codi gyda llywodraeth ganolog, yn ogystal â Chynulliad Cymru. Roedd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) wedi rhoi cyllid sylweddol i'r Cyngor AG gan gynnwys posibilrwydd sefydlu comisiwn hyfforddiant yn benodol ar gyfer AG. Fodd bynnag, nid oedd eto'n glir a fyddai Cymru ar ei hennill a byddai unrhyw ddatblygiadau'n cael eu monitro'n ofalus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd G.J. Pickering at y Rhaglen Moderneiddio Addysg sy'n cael ei gweithredu gan Ymgynghorwyr Addysg Caergrawnt a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan PriceWaterhouseCoopers o ran cyllido ysgolion. Awgrymodd Cynghorydd Pickering y gellid rhannu rhai o'r materion a godwyd mewn ymatebion gyda'r sefydliadau hynny ac y dylai CYSAG Sir Ddinbych, fel corff statudol ar gyfer AG, ymwneud â'r broses ymgynghori sydd ar waith ar hyn o bryd gydag Addysg Caergrawnt. Cytunodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG i gysylltu â'r sefydliadau hynny yn uniongyrchol yn hynny o beth.

### (b) Adroddiadau CYSAG Blynyddol: Arweiniad a Ffocws

Cafodd cyhoeddiad ACCAC ar Adroddiadau CYSAG Blynyddol: Arweiniad ar ffocws a strwythur ei gylchredeg yn flaenorol gyda'r agenda.

Eglurodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG fod y cyhoeddiad yn ganllaw i CYSAGau wrth lunio eu hadroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, teimlai y byddai dilyn yr arweiniad yn haearnaidd yn arwain at adrodd ofer ac nad oedd yn adlewyrchu ymagwedd CYSAG at weithio mewn sawl achos. Aeth yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ati i amlygu hyn drwy amryw gyfeiriadau yn y ddogfen ac arferion gwaith CYSAG. Amlygodd hefyd y materion hynny na chyfeirir atynt yn Adroddiad Blynyddol CYSAG ar hyn o bryd ond a fyddai'n cael eu cynnwys yn y dyfodol, fel cyngor a roir i'r awdurdod addysg lleol a chyfeirio at benderfyniadau pan na wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yn oed.

Ymddiheurodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG am hepgor tudalen 8 o'r ddogfen ac adroddodd ar lafar am y cynnwys coll a oedd yn ymdrin â dulliau addysgu, dewis deunyddiau addysgu a hyfforddiant athrawon y dylid eu disgrifio yn Adroddiad Blynyddol CYSAG. Cyflwynodd nifer o opsiynau i'r aelodau er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny a sicrhau y byddai'r arweiniad yn cael ei ddilyn yn ofalus gan

gynnwys (1) ystyried ymestyn dogfen arweiniad CYSAG a gofyn yn ffurfiol i awdurdodau lleol gyhoeddi deunyddiau ychwanegol am y broses honno gyda'r adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn (2) a ddylid gwahodd colegau i fynychu cyfarfod CYSAG i roi cyflwyniad am hyfforddiant athrawon ar gyfer AG (3) ymgynghori ag ysgolion am y wybodaeth a geir gan golegau yn hynny o beth, a (4) gofyn i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG ymweld ag ysgolion i weld y myfyrwyr dan sylw.

Wrth ystyried yr opsiynau teimlai'r aelodau y byddai'n fuddiol petai CYSAG yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn colegau a chytunwyd bod rhaid mynd at y tri phrif ddarparwr (Sefydliad Gogledd-ddwyrain Cymru, Bangor a Chaer) gyda'r bwriad o fynychu cyfarfod CYSAG yn y dyfodol i roi cyflwyniad am hyfforddiant athrawon ar gyfer AG.

Cyfeiriai'r ddogfen hefyd at gyngor a roddwyd o ran hyfforddi llywodraethwyr a chytunodd yr aelodau i wneud cais ffurfiol i'r awdurdod lleol gynnwys cyfeiriad at CYSAG a'r Maes Llafur Cytûn yn y rhaglen hyfforddi llywodraethwyr. Awgrymodd y Cynghorydd G.J. Pickering hefyd y dylid cynnwys cyfeiriad ar wefan Llywodraethwyr Cymru. Yna bu'r aelodau yn ystyried manteision ymweld ag ysgolion ond nodwyd bod mwyafrif yr aelodau eisoes yn ymwneud ag ysgolion i raddau amrywiol naill ai yn athrawon neu'n llywodraethwyr. Nododd Mrs. J. Buckley Jones, Pennaeth Ysgol Gwaenynog, Dinbych y byddai croeso i grŵp bychan o aelodau ymweld ag Ysgol Gwaenynog yn ystod tymor yr hydref. Dywedodd Mr. P. Speirs ei fod wedi ymweld â diwrnodau agored ysgolion a bod hyn yn ddefnyddiol iawn a theimlai y dylid annog pob aelod i fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a)* *Gwahodd i Golegau Sefydliad Gogledd-ddwyrain Cymru, Bangor a Chaer fynychu cyfarfod CYSAG yn y dyfodol i roi cyflwyniad am hyfforddiant athrawon ar gyfer AG;*

*(b)* *cyflwyno cais ffurfiol i Sir Ddinbych i gynnwys cyfeiriad at CYSAG a'r Maes Llafur Cytûn yn ei Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr; a*

*(c)* *gwneud cais am gyfeiriad i CYSAGau a'r Meysydd Llafur Cytûn ar wefan Llywodraethwyr Cymru.*

## 8. CYMDEITHAS CYNGHORAU YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL CYMRU (CCYSAGC)

### (a) Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 17 Mai 2006

Cafodd adroddiad o'r cyfarfod ei gylchredeg yn flaenorol gyda'r agenda gan roi manylion y materion canlynol:-

- Adroddiad o weithgareddau CCYSAGC ar gyfer y flwyddyn 2005-06 (a arweiniwyd gan y Tad Ieuan Wyn Jones)
- Briff, strwythur a chyfrifoldebau AADGOS (a arweiniwyd gan Mrs. Mairwenna Lloyd)

- Partneriaeth rhwng CCYSAGC ac AADGOS i gryfhau'r Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol cyn belled ag y bo AG dan sylw (a arweiniwyd gan Mr. Gavin Craigen)
- Rôl CYSAGau yn y dyfodol o ystyried y cydweithio posibl rhwng Awdurdodau Unedol (a arweiniwyd gan y Tad Ieuan Wyn Jones)

Darparodd y Cadeirydd a'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG grynodeb byr o'r cyfarfod a dweud wrth yr aelodau mai CCYSAGC a PYCAG oedd yr unig gymdeithasau pwnc i gyfarfod â'r Gweinidog bob blwyddyn.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 17 Mai 2006 wedi'i dderbyn.*

**(b) Adroddiad ar lafar gan aelodau yn mynychu cyfarfod diwethaf CCYSAGC**

Ymddiheurodd y Cadeirydd am na fu'n bosibl, am sawl rheswm, i CYSAG Sir Ddinbych gael ei gynrychioli yng nghyfarfod CCYSAGC ym Mharc Margam ar 7 Ebrill 2006 ac y byddai angen i'r aelodau dderbyn y cofnodion yn gofnod o'r cyfarfod hwnnw. O ran cyfarfod diwethaf CCYSAGC (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Caernarfon ar 23 Mehefin 2006, roedd y Cadeirydd yn falch o adrodd bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi cael ei ethol yn Gadeirydd CCYSAGC. Byddai cofnodion y cyfarfod hwnnw yn cael eu cylchredeg pan fyddent ar gael. Dywedodd y Parchedig B.H. Jones mai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oedd y cyfarfod CCYSAGC cyntaf a fynychodd a'i fod wedi mwynhau'r diwrnod yn llwyr, yn benodol y cyflwyniad ar Strategaeth Sgiliau Meddwl a fu'n cynnwys cyfranogiad aelodau. Manteisiodd y Parch. Jones hefyd ar y cyfle i longyfarch yr Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar ei benodi'n Gadeirydd CCYSAGC.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad ar lafar gan aelodau a fynychodd y cyfarfod diwethaf wedi'i dderbyn.*

**(c) Adroddiad ar lafar gan gynrychiolwyr a fynychodd y Gynhadledd Arbennig yn Ysgol Uwchradd Llandrindod ar 20 Mai 2006**

Adroddodd y Cadeirydd a'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG ar lafar am y Gynhadledd Arbennig lle cynrychiolwyd Sir Ddinbych yn benodol dda gyda nifer o athrawon yn mynychu. Cafodd aelodau wybod y bu Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn siaradwr gwadd ar y diwrnod ac y bu aelodau'n ystyried yr adolygiad newydd o'r cwricwlwm ar gyfer AG. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi am ganlyniad trafodaethau a fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod CYSAG yn y dyfodol er mwyn i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad ar lafar gan y Cadeirydd a'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG wedi'i dderbyn.*

**9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. ddydd Mercher 18 Hydref 2006 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.

Bryd hyn, dywedodd Mr. P. Speirs, a gynrychiolai'r Gymdeithas Grefyddol Ffrindiau, ei fod yn mynychu ei gyfarfod CYSAG diwethaf yn dilyn ei gyfnod tair blynedd a'i fod yn symud ymlaen i waith arall mewn Addysg Crynwyr. Diolchodd Mr. Speirs i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG am ei waith caled a dymuno'r gorau i CYSAG ar gyfer y dyfodol.

Wrth gau'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygydd/Ymgynghorydd AG, cyfieithydd y pwyllgor a Chlerc CYSAG am eu gwaith caled.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.**

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**

**(CYSAG)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18fed Hydref 2006 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **3** | Adroddiad: | **Cyflwyniad gan Ysgol Gynradd Santes Ffraid, Dinbych** |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Sefydlodd CYSAD drefn o dderbyn cyflwyniadau gan ysgolion dethol ym mhob cyfarfod, os yn bosibl.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Galluogi i'r aelodau gael cipolwg o ddarpariaeth AG a chyd-addoliad yn Ysgol Gynradd Santes Ffrewi yn Ninbych. *(Roedd y cyflwyniad hwn wedi ei drefnu'n wreiddiol ar gyfer cyfarfod blaenorol CYSAD, ond bu'n rhaid ei ohirio)*

*Argymhellion:*

I CYSAD:
- derbyn y cyflwyniad gan Ysgol Gynradd Santes Ffrewi
- Paratoi llythyrau i ddiolch i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol am y cyflwyniad

I'r AALl:

<table>
<tr><td colspan="4">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>18fed Hydref 2006</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>4</td><td>Adroddiad:</td><td>Adroddiad Blynyddol drafft 05-06</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Cefndir i'r Adroddiad:</u><br><br>Mae gofyn statudol i CYSAD ddarparu Adroddiad Blynyddol o'i waith yn ystod y flwyddyn academaidd, a chyflwyno'r adroddiad hwn i'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) erbyn Rhagfyr 31ain, a'i ddosbarthu i holl ysgolion, colegau a sefydliadau eraill â diddordeb.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Cydymffurfio gyda'r gofyniad statudol uchod i gyhoeddi adroddiad yn delio â gweithgareddau a phenderfyniadau CYSAD ar gyfer y flwyddyn 20055-2006.</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Argymhellion:</u><br><br>I CYSAD: - dderbyn yr adroddiad fel ei Adroddiad Blynyddol<br>- gofyn i'r AALl baratoi a dosbarthu'r Adroddiad<br>I'r AALl: - baratoi ac argraffu'r adroddiad a'i ddosbarthu i holl ysgolion, colegau a sefydliadau a chyrff eraill â diddordeb</td></tr>
</table>

Eitem Agenda Rhif 4

# Adroddiad Blynyddol

## Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Sir Ddinbych

## 2005 – 2006

Draft

# CYNNWYS


| | Rhif y Dudalen: |
|---|---|
| **1. Crynodeb Gweithredol** | 2 – 4 |
| **2. Cyngor a roddwyd i'r AALl:** | |
| a) Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytûn | 5 – 11 |
| b) Dulliau addysgu, dewis deunyddiau addysgu a darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon | 11 – 12 |
| c) Addoli ar y Cyd | 13 – 18 |
| **3. Materion Eraill:** | |
| a) Materion lleol | 18 |
| b) Materion cenedlaethol: | |
| i. Estyn | 18 |
| ii. AADGOS | 19 |
| iii. CCYSAGC | 20 |
| iv. Materion eraill | 21 |
| v. Cwynion | 22 |
| **4. Atodiadau:** | |
| a) Cyfansoddiad CYSAG | 22 |
| b) Nifer a dyddiadau cyfarfodydd | 23 |
| c) Sefydliadau sy'n cael yr adroddiad | 23 |
| ch) Tystiolaeth â ffocws penodol: ystadegau | 25 - 35 |

| Crynodeb Gweithredol | | |
|---|---|---|
| ***Pynciau/Materion:*** | ***Cyngor a roddwyd:*** | ***Gweithredwyd gan AALl:*** |
| AG: Maes Llafur Cytûn | - arweiniad ar weithredu: adolygu'r Maes Llafur Cytûn ar ôl Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ACCAC;<br>- cefnogaeth i godi safonau: rhaglen fonitro, anfonwyd llythyrau at ysgolion;<br>- gwerthuso effeithiolrwydd y Maes Llafur Cytûn: cafwyd llythyrau ac ymateb i raglen fonitro;<br>- monitro effeithiolrwydd cefnogaeth ac arweiniad: nid yn ffurfiol, ymatebion cyffredinol;<br>- diwygio'r maes llafur: adolygu'r Maes Llafur Cytûn ar ôl Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ACCAC. | ✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓ |
| AG: Safonau | - dadansoddi canlyniadau arholiad: islaw ffigurau Cenedlaethol, ond nid yw darpariaeth a llwyddiant yn ymwneud â chanlyniadau arholiad yn unig;<br>- dadansoddi adroddiadau arolygu Estyn: llunio 8 adroddiad ysgol, a llythyrau canmoliaeth a chynnig cefnogaeth i ysgolion yn dilyn cyfarfod CYSAG;<br>- Adroddiadau Ymweliad Adolygu Cefnogol: adroddiadau am bymtheg ysgol (dwy Ysgol Uwchradd a'r ysgolion cynradd yn eu dalgylch), ac anfonwyd llythyrau at yr ysgol yn dilyn cyfarfod CYSAG;<br>- Ffigurau Cyrhaeddiad Diwedd Cyfnod Allweddol: nid yw CYSAG a'r AALl yn mynnu nac yn casglu ystadegau am Lefelau a gyflawnir. | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ |
| AG: Dulliau Addysgu | - arweiniad presennol i'w ychwanegu at yr adolygiad dilynol o'r Maes Llafur Cytûn;<br>- drwy HMS, er nad oes fawr o gyfle bellach oherwydd meini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell, rhaid codi'r mater gydag ymgynghorwyr Partneriaeth Addysg Caergrawnt (Rheoli Lleoedd Ysgol), a Price Waterhouse Cooper (edrych ar gyllidebu ysgol);<br>- cafwyd tystiolaeth o effaith y cyngor drwy'r rhaglen fonitro; | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | - astudiaethau achos: cafodd CYSAG ddau gyflwyniad yn ystod y flwyddyn: ysgol Gynradd Gymraeg ac ysgol Gynradd Saesneg. | |
| AG: Dewis Deunyddiau Addysgu | - cynigir cyngor drwy ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd, ar gyfer monitro, cefnogaeth gynlluniedig, HMS penodol mewn ysgolion, neu mewn ymateb i geisiadau penodol. Gofynnwyd i'r AALl roi cyngor yn dilyn yr adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn. | ✓ |
| AG: Darparu HCA | - gofynnwyd i'r AALl drefnu ymweliad â sefydliadau HCA, arolwg o ysgolion sy'n derbyn myfyrwyr ar gyfer lleoliadau AG, a chyflwyniadau i CYSAG gan adrannau HCA. Bydd y rhain yn dechrau yn Nhymor yr Hydref 2006. | ✓ |
| Addoli ar y Cyd | - monitro darpariaeth: drwy Ymweliadau Adolygu Cefnogol, a rennir gyda CYSAG, a llythyrau at ysgolion yn dilyn cyfarfod CYSAG;<br>- dadansoddi Adroddiadau Arolygu Estyn: llunio adroddiadau am wyth ysgol, a llythyrau at ysgolion yn dilyn cyfarfod CYSAG;<br>- argymhellwyd adnoddau: mae dogfennau cyfarwyddo presennol yn cynnwys cyngor, yn ychwanegol at ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd ar gyfer monitro, cefnogaeth gynlluniedig, HMS penodol mewn ysgolion, neu mewn ymateb i geisiadau penodol.<br>- hyfforddiant HMS: prinder cyfle oherwydd meini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell. Codwyd y mater gydag ymgynghorwyr Partneriaeth Addysg Caergrawnt a Price Waterhouse Coopers sy'n gweithio ar hyn o bryd yn AALl Sir Ddinbych.<br>- gwerthuso effeithiolrwydd cyngor: drwy ymatebion cyffredinol gan ysgolion, heb wneud hyn yn ffurfiol.<br>- penderfyniadau: ni chafwyd unrhyw geisiadau. | ✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓ |
| Materion Eraill: Lleol | - Hyfforddi Llywodraethwyr: cyfeiriwyd at yr AALl ac at Lywodraethwyr Cymru;<br>- aelodau CYSAG yn ymweld ag ysgolion: mae gan y rhan fwyaf o aelodau gysylltiadau ag ysgolion, a gwnaed cynnig i aelodau ymweld ag Ysgol Fabanod; | ✓<br>✓ |
| Materion Eraill: Cenedlaethol | - Estyn: cafwyd a nodwyd Adroddiad Blynyddol SPAEM, ac fe'i cysylltwyd â gwybodaeth o'r Rhaglen Fonitro ac ymweliadau Cefnogaeth Gynlluniedig; | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | - ACCAC/AADGOS: Adolygiad o Adroddiadau Blynyddol 2003-4 a 2004-5 – trafodwyd a nodwyd materion; Arweiniad ar Ffocws a Strwythur Adroddiadau Blynyddol – cytunwyd ar arddull newydd mewn egwyddor, ond nodwyd nad yw'r arweiniad yn adlewyrchu natur gadarnhaol y berthynas rhwng y CYSAG a'r AALl, ac y gallai'r arweiniad arwain at adrodd mwy diwerth;<br>- CCYSAGC: cynrychiolwyd y CYSAG a'r AALl mewn cyfarfodydd, cafwyd rhai o'r cyflwyniadau a wnaed i CCYSAGC, nodwyd canlyniadau'r dirprwyo i'r Gweinidog, a chyfranogwyd yn y Gynhadledd Arbennig, a gofynnwyd i'r AALl i gefnogi athrawon yn mynychu. | ✓<br>✓ |
| Materion Eraill: ychwanegol | - Adroddiad am ymweliad yr Arolygydd/Ymgynghorydd ag Uganda;<br>- Llythyr gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ynghylch penodi Caplaniaid mewn ysgolion: gofynnwyd i'r AALl anfon llythyr at ysgolion;<br>- Llythyr gan yr Esgobaeth Gatholig ynghylch ymweliadau cefnogi a monitro â'i hysgolion: gofynnwyd i'r AALl drefnu trafodaethau gyda'r Esgobaeth. | ✓<br>✓<br>✓ |
| Cwynion | - Ni chafodd CYSAG unrhyw gwynion. | |

## Yr Adroddiad Blynyddol

### 1. Addysg Grefyddol:

#### a. Y Maes Llafur Cytûn

Ar gais CCYSAGC, cytunodd CYSAG a'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn i ofyn i'r AALl ohirio'r adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn hyd nes cwblhawyd Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol ACCAC (a oedd yn cynnwys AG). Roedd aelodau CYSAG wrth eu bodd fod yr Arolygydd/Ymgynghorydd yn aelod o Grŵp Cynghori AG yr Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol. Cytunodd yr AALl i'r cais.

Mae CYSAG yn cefnogi codi safonau mewn AG drwy gynnal rhaglen fonitro o Ymweliadau Adolygu Cefnogol gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd. Mae dwy Ysgol Uwchradd, ynghyd â'r ysgolion cynradd yn eu dalgylch, yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hon bob blwyddyn. Mae adroddiadau am yr ymweliad yn cynnwys Esboniad (sy'n amlinellu'r ymweliad), Nodweddion Da, Meysydd i'w Datblygu, Safonau, Argymhellion. Cytunir yr adroddiad â'r ysgol, ac mae'n ffurfio rhan o brosesau hunanwerthuso'r ysgolion eu hunain. Caiff adrannau o'r adroddiadau eu rhannu gyda CYSAG, a nodir crynhoad o'r materion ar draws y consortiwm. Caiff manylion y rhain ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys yn Adran B isod. Anfonir llythyrau at ysgolion yn dilyn y trafodaethau yn CYSAG.

Ni werthuswyd effeithiolrwydd y Maes Llafur Cytûn yn ffurfiol, ond mae'r ymweliadau adolygu cefnogol sy'n rhan o'r rhaglen fonitro wedi nodi bod y Maes Llafur Cytûn wedi'i ymgorffori'n dda yn yr ysgolion, a bod mwyafrif helaeth yr ysgolion yn hapus gyda'i fformat a'i gynnwys.

O ran gwerthuso effeithiolrwydd y gefnogaeth a'r arweiniad i'r Maes Llafur Cytûn, ni chafwyd unrhyw werthuso ffurfiol, ond ceir llythyrau oddi wrth ysgolion, ac mae'r rhaglen fonitro yn galluogi casglu gwybodaeth am effeithiolrwydd y cyngor a'r gefnogaeth a roir gan CYSAG a'r AALl.

Gohiriwyd yr adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn, a fwriadwyd ar gyfer 2006-7, fel y cyfeiriwyd ato yn y paragraff cyntaf uchod.

b. **Safonau**

Canlyniadau arholiad

Cafodd y CYSAG fanylion y canlyniadau arholiad ar gyfer 2005. Roedd aelodau'n siomedig fod yr holl ganlyniadau islaw'r cyfartaleddau cenedlaethol. Cafwyd cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU, ond cwymp mewn perfformiad o 6.9% i 6.5% islaw'r ffigur cenedlaethol. Er gwaethaf cynnydd mawr yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer TGAU cwrs byr (rhyw 126 o ymgeiswyr), a chynnydd o 4.4% mewn perfformiad, roedd y canlyniad cyffredinol yn dal i fod 6.3% islaw ffigurau cenedlaethol. Roedd cwymp hefyd mewn canlyniadau Safon Uwch, i 5.4% islaw ffigurau cenedlaethol, er gwaethaf cynnydd calonogol o wyth ymgeisydd; roedd yr aelodau'n ymwybodol bod ffigurau mynediad isel yn arwain at newidiadau mawr mewn canran. Yn olaf, roedd canlyniadau Lefel Mynediad (TCA yn flaenorol) 0.4% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o hyd.

Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig nodi bod darparu AG a datblygu dealltwriaeth plant yn golygu mwy na'r canlyniadau arholiad yn unig, a bod angen ystyried y cyfraniadau ehangach at ethos yr ysgol a dysgu gydol oes hefyd.

Adroddiadau Arolygu

Dadansoddwyd yr adroddiadau am AG mewn saith ysgol yn unig yn ystod y flwyddyn. Roedd y canlyniadau o ran safonau fel a ganlyn:

| Cyfnod Allweddol | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4 | Gradd 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| CA 1 | 1 | 4 | 2 | 0 | 0 |
| CA 2 | 1 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| CA 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| CA 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Ôl-16 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |

| *Nodweddion Da a nodwyd mewn Adroddiadau Arolygu:* | *Nifer yr ysgolion:* |
|---|---|
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth | 7 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau heblaw Cristnogaeth | 7 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Beibl a hanesion y Beibl | 6 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau/themâu crefyddol | 6 ysgol |
| Gwybodaeth/ymwybyddiaeth am fywydau enwog | 5 ysgol |
| Dim diffygion | 4 ysgol |
| Ymwybyddiaeth am effaith cred ar ffordd o fyw | 3 ysgol |
| Ymweliadau ag eglwysi/capeli/mannau addoli lleol | 3 ysgol |
| Dealltwriaeth/ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu/rhannu | 2 ysgol |
| Cynnydd disgyblion/magu hyder/sgiliau | 2 ysgol |

Wrth ddadansoddi'r adroddiadau hyn, roedd y nodweddion da a nodwyd yn yr adroddiadau ar gyfer dwy ysgol neu fwy fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Defnyddio ymwelwyr o draddodiadau ffydd mewn addysgu a dysgu | 2 ysgol |
| Cyfansoddi/ysgrifennu eu gweddïau eu hunain | 2 ysgol |
| Perthynas y cynllun gwaith â'r Maes Llafur Cytûn | 2 ysgol |
| Cyfleoedd / gallu i fynegi eu syniadau/ eu barnau eu hunain | 2 ysgol |

Roedd yr holl nodweddion da eraill ar gyfer ysgolion unigol, fel a ganlyn:

- Defnyddio barddoniaeth/drama/gweithgareddau amrywiol mewn AG
- Cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu
- Cyfleoedd i drafod materion, teimladau a gwerthoedd moesol
- Cyfleoedd i ddatblygu a mynegi credoau personol
- Cydymffurfio â gofynion statudol AG a'r Maes Llafur Cytûn
- Cyfleoedd i fyfyrio ynghylch yr effaith ar eu bywydau eu hunain
- Uniaethu â bywydau pobl eraill

O ran y meysydd pryder a godwyd yn yr adroddiadau, dim ond un ohonynt a ymddangosodd mewn mwy nag un ysgol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau heblaw Cristnogaeth heb ddatblygu digon, yn arwynebol neu ddiffyg hyder mewn cysylltiad â hynny.

Roedd y pump arall ar gyfer ysgolion unigol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth, o ran pwyntiau allweddol yn y calendr Cristnogol yn ansicr
- Diffyg gwybodaeth sicr disgyblion am y pynciau a astudiwyd a disgyblion yn methu eu cofio'n fanwl
- Disgyblion yn peidio â chofnodi eu gwaith yn ddigonol, gan atal atgyfnerthu eu dysgu
- Disgyblion yn methu enwi damhegion Iesu Grist na'r negeseuon y tu ôl iddynt
- Diffyg cyfleoedd i fyfyrio ynghylch agweddau ar eu gwaith AG

Yn unol â'r broses sydd wedi'i sefydlu, ysgrifennwyd at yr ysgolion ar ôl i CYSAG ystyried eu Hadroddiad Arolygu, ac fe'u cymeradwywyd am eu nodweddion da, cynigiwyd cefnogaeth iddynt gydag unrhyw ddiffygion, a chynghorwyd iddynt ystyried eu hunain mewn perthynas â diffygion a nodwyd ym mhob un o'r adroddiadau yn y sesiwn honno. Canfu ysgolion fod y broses hon yn werthfawr ac yn ddefnyddiol.

<u>Ymweliadau Adolygu Cefnogol</u>

Yn rhan o raglen fonitro CYSAG, cafwyd a thrafodwyd adroddiadau am ymweliadau â'r ysgol mewn dau gonsortiwm Ysgol Uwchradd – rhyw bymtheg ysgol. Nid yw bob amser yn bosibl gwneud na chadarnhau barn am safonau yn ystod yr ymweliadau, ond nodwyd y manylion cyffredinol ar gyfer safonau fel y dangosir yn y pwyntiau bwled isod:

- Da Iawn, neu Dda i Dda Iawn (3 ysgol)
- Da (3 ysgol)
- Da, neu symud tuag at Dda (3 ysgol)
- Boddhaol ac yn gwella/yn symud tuag at Dda (4 ysgol)
- Dim barn yn bosibl (2 ysgol)

Roedd y nodweddion da a nodwyd yn y pymtheg ysgol hyn fel a ganlyn:

| *Nodweddion Da a nodwyd mewn Adroddiadau Adolygu Cefnogol* | *Nifer yr ysgolion* |
|---|---|
| Cynlluniau gwaith/polisïau clir ar gyfer AG | 7 ysgol |
| Ystod dda o weithgareddau ar gyfer addysgu a | 6 ysgol |

| | |
|---|---|
| dysgu | |
| Cysylltiadau da â'r gymuned ffydd leol ar gyfer AG | 4 ysgol |
| Prosesau monitro wedi'u sefydlu gyda strwythur clir | 3 ysgol |
| Proses/tystiolaeth dda o hunanwerthuso | 2 ysgol |
| Y cynllun gwaith wedi'i ddiwygio yn ddiweddar | 2 ysgol |

Roedd pob nodwedd dda arall ar gyfer ysgolion unigol:

- Arddangosiadau clir o eiriau allweddol, yn ddwyieithog
- Gwersi wedi'u cynllunio'n dda ac yn glir
- Ymweliadau'n cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y rhaglen AG
- Mynd i'r afael â'r materion allweddol yn yr Arolygiad
- Defnyddio arteffactau ac ymagweddau ymarferol mewn AG
- Dynodi AG yn bwnc i'w adolygu
- Ymweliad Pasg blynyddol â Choleg y Bala
- Ymateb i'r tân a ddinistriodd holl gofnodion ac adnoddau'r Adran
- Datblygu cynlluniau gwaith a llawlyfr newydd, yn ogystal â llyfrau gwaith cartref i ddisgyblion CA 3
- Defnyddio cardiau gwobrwyo
- Darparu sesiwn amser cinio i'r disgyblion hynny sy'n dymuno cofrestru ar gyfer cwrs TGAU llawn
- Cynnydd mewn adnoddau ac arteffactau ar gyfer yr addysgu a'r dysgu mewn AG
- Safle sicr AG yn y cwricwlwm a'r ffocws AG da i'r gweithgareddau a'r tasgau dysgu
- Mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf, a'r ymdrech i wella cyflwyniad y cynllun drwy'r broses fonitro.
- Dadansoddiad o'r cynllun yn erbyn y Maes Llafur Cytûn
- Y cofnod o dystiolaeth, yn benodol ar gyfer dosbarthiadau Blwyddyn 1
- Cydlynwyr a ddynodwyd yn glir ar gyfer pob cyfnod allweddol yn y pwnc.

O ran y meysydd i'w datblygu, dim ond tri phwnc a ymddangosodd ar gyfer mwy nag un ysgol, sef:

- Gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniad (9 ysgol)
- Yr angen i nodi cysylltiadau rhwng y cynllun gwaith a'r Maes Llafur Cytûn ~(3 ysgol)
- Rhai tasgau yn methu arwain at y ddealltwriaeth a'r gwerthuso gorau o AG (2 ysgol)

Gyda'r cyntaf ohonynt, roedd aelodau CYSAG yn siomedig oherwydd rhoddwyd cyngor ac arweiniad manwl ar Asesu mewn AG pan gafodd y Lefelau Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG eu mabwysiadu yn y Maes Llafur Cytûn. Fodd bynnag, er gwaethaf y ddogfen gyfarwyddo hon a bodolaeth Deunyddiau Asesu Dewisol ACCAC hefyd, roedd yn ymddangos nad yw asesu yn y Pynciau Sylfaen wedi cael cymaint o sylw ag y cafodd mewn pynciau craidd, a'i fod yn dechrau datblygu. Yn sicr, bydd yr ymweliadau monitro wedi helpu ysgolion i ddechrau mynd â'r mater hwn yn ei flaen o ran AG.

Roedd y meysydd eraill i'w datblygu ar gyfer ysgolion unigol, ac fel a ganlyn:

- Datblygu sgiliau sylfaenol a dyfnder gwaith
- Cymhelliant disgyblion mewn rhai grwpiau blwyddyn
- Cynllun datblygu TGCh ac AG
- Darpariaeth ôl-16 ar gyfer AG
- Mân newidiadau i'r polisi ar gyfer AG
- Proses hunanwerthuso i'w rhoi ar waith
- Ansicrwydd sail y cynllun gwaith
- Mae angen diwygio/adolygu'r cynllun gwaith
- Ymdrin â chrefyddau heblaw Cristnogaeth yn y cynllun
- Cyfleoedd i fynegi eu barnau a'u syniadau eu hunain
- Swm ac ystod y gwaith mewn llyfrau disgyblion
- Cyswllt cynradd – fel y nodwyd yn y Cynllun Datblygu
- Ehangu tasgau i alluogi ymatebion mwy personol gan ddisgyblion
- Cydlynu a nodi hanesion y Beibl y dylai disgyblion ymdrin â hwy
- Agweddau ar y Cwricwlwm Cymreig yn y cynllun gwaith, ac ar y pynciau tymhorol
- Ehangu'r broses fonitro ar gyfer y pwnc

Wrth reswm, mae'r Argymhellion a wnaed yn adlewyrchu'r meysydd i'w datblygu a nodwyd, er bu'n galonogol i'r aelodau weld bod digonedd o arfer da i'w ganmol ac argymell y dylai barhau. O ran hyn, roedd pum ysgol lle argymhellwyd yn benodol y dylai'r arfer da mewn AG barhau, a dwy ysgol arall lle argymhellwyd yr arfer da mewn AG ac addoli ar y cyd.

Roedd yr argymhellion a wnaed ar gyfer mwy na dwy ysgol fel a ganlyn:

| *Argymhellion mewn Supportive Review Reports* | *Nifer yr ysgolion* |
|---|---|
| Dechrau neu sefydlu gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi | 10 ysgol |
| Cynnal neu weithredu'r adolygiad cynlluniedig i'r | 4 ysgol |

| | |
|---|---|
| cynllun gwaith | |
| Nodi cysylltiadau â'r Maes Llafur Cytûn | 4 ysgol |
| Diwygio'r polisi ar gyfer AG | 3 ysgol |
| Adolygu tasgau yn y cynllun ac archwilio'r ystod o brofiadau | 2 ysgol |

Roedd pob argymhelliad arall ar gyfer ysgolion unigol:

- Dyfeisio ffyrdd o ysgogi cymhelliant disgyblion
- Rhoi'r strategaethau ar waith ar gyfer datblygu TGCh yn y pwnc
- Cryfhau sgiliau a chysyniadau allweddol drwy AG
- Penderfynu ar sail i'r cynllun gwaith
- Datblygu a chryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso
- Cynllunio ar gyfer gwaith trafod i gyfrannu at waith ysgrifenedig
- Cynllunio mwy o ymweliadau yn y cynllun AG
- Ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion gofnodi/mynegi eu syniadau a'u barnau eu hunain
- Rhoi'r cynllun datblygu arfaethedig ar waith
- Parhau i ddatblygu'r ffordd y cyflwynir y cynllun yn y modd cadarnhaol a chlir sydd eisoes ar waith
- Mireinio'r cynllun gwaith ymhellach drwy gynnal archwiliad o'r Cwricwlwm Cymreig o fewn y cynllun, a rhoi mwy o gydlyniad i'r elfennau tymhorol
- Cyfleoedd i'r cydlynydd adolygu samplau o lyfrau yn fwy ffurfiol, ac arsylwi gwersi

Eto, yn unol â'r broses ar gyfer Adroddiadau Arolygu, ysgrifennir at ysgolion ar ôl i'w Hadolygiad Cefnogol gael ei drafod yn CYSAG, a chânt gopi o adroddiad y consortiwm cyfan. Mae'r llythyr sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn llongyfarch yr ysgol am ei nodweddion da, ac yn cynnig cefnogaeth ar gyfer meysydd i'w datblygu. Canfu ysgolion fod y broses hon yn addysgiadol ac yn werthfawr, a rhannwyd llawer o arfer da drwyddi.

### c. Dulliau addysgu

Mae'r CYSAG a'r AALl wedi darparu dogfennau a deunyddiau helaeth i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn, a oedd yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu a chyflwyno AG. Gofynnwyd i'r AALl ymestyn a diweddaru'r cyngor hwn pan gaiff y Maes Llafur Cytûn ei adolygu, ar ôl i ACCAC/AADGOS gwblhau'r Adolygiad Cwricwlwm Cenedlaethol.

Yn ogystal, mae ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd ag ysgolion yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu, ar gyfer monitro Adolygiad Cefnogol, cefnogaeth gynlluniedig neu sesiynau HMS

mewn ysgolion.

Yn y gorffennol, cynhaliwyd sesiynau HMS hefyd, ond ni fu'r rhain yn bosibl o ystyried nad yw'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell (CYG) bellach yn caniatáu i feysydd cwricwlwm gael eu hariannu allan o'r dyraniad CYG. Nododd y CYSAG fod y mater wedi'i godi sawl gwaith gyda'r Gweinidog, ond nad oedd unrhyw gynllun i newid y trefniadau cyfredol ar gyfer y fformiwla ariannu. Gofynnodd CYSAG i'r AALl godi mater ariannu gydag Ymgynghorwyr Partneriaeth Addysg Caergrawnt sydd wrthi'n gwerthuso Rheoli Lleoedd Ysgol ar hyn o bryd, a'i godi hefyd gyda chynrychiolwyr Price Waterhouse Cooper sydd wrthi'n astudio cyllidebu ysgolion.

O ran barnu effaith y cyngor a'r gefnogaeth a roddwyd am ddulliau addysgu, nid yw'r CYSAG wedi cynnal unrhyw werthusiadau ffurfiol, ond mae'r ymatebion gan ysgolion, a'r dystiolaeth yn yr adolygiadau cefnogol, wedi dangos bod y cymorth yn cael ei werthfawrogi ac ystyrir ei fod o fudd.

Caiff CYSAG gyflwyniadau gan athrawon ym mhob cyfarfod hefyd. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyflwyniad gan ysgol gynradd Gymraeg ac ysgol gynradd Saesneg. Roedd aelodau'n gwerthfawrogi'r sesiynau hyn, ac roedd y cyfle i weld a chlywed am ddarpariaeth mewn ysgolion, yn ogystal â holi athrawon, yn ddiddorol ac yn addysgiadol, ac yn helpu CYSAG i ystyried cefnogaeth bellach y gellid ei chynnig.

### ch. Dewis adnoddau addysgu

Ni fu'r CYSAG yn cynghori ysgolion yn ffurfiol ynghylch mater prynu adnoddau addysgu, gan ystyria fod hyn yn fater i'r ysgolion eu hunain. Fodd bynnag, rhoir cyngor drwy ymweliadau'r Arolygydd/Ymgynghorydd – ar gyfer monitro Adolygiad Cefnogol, cefnogaeth gynlluniedig, a sesiynau HMS mewn ysgolion. Yn ogystal, gwneir ceisiadau penodol i'r Arolygydd/Ymgynghorydd am gyngor ar adnoddau addysgu.

Gofynnodd y CYSAG i'r AALl ystyried y mater hwn yn yr adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn, a'r ddogfennaeth a gaiff ei dosbarthu i'w gefnogi yn fwy na thebyg.

### d. Darparu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Yn y gorffennol, ni fu hyn yn eitem ar agenda CYSAG, o ystyried nad oedd unrhyw sefydliadau HCA yn ei ffiniau. Fodd bynnag, mae'r

CYSAG wedi gofyn i'r AALl wneud trefniadau i aelodau ymweld â cholegau ag adrannau HCA sy'n rhoi myfyrwyr mewn ysgolion yn yr AALl, a chynnal arolwg o ysgolion sy'n cael myfyrwyr felly, a gwahodd cynrychiolwyr o'r Adrannau AG HCA i ymweld â CYSAG a gwneud cyflwyniad. Mae'r cyntaf o'r ymweliadau hyn ar fin digwydd yn ystod tymor yr hydref, 2006.

## 2. Addoli ar y Cyd

### a) Monitro darpariaeth

Adroddiadau Arolygu

Yn rhan o'r broses fonitro, caiff Adroddiadau Arolygu Estyn eu dadansoddi o ran addoli ar y cyd, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol (YMCD), ac agweddau ar Gwestiwn Allweddol 3. Caiff y rhain eu crynhoi a'u nodi gan CYSAG. Anfonir llythyrau at ysgolion ar ôl eu hystyried yn CYSAG, gan ganmol arfer da a chynnig cefnogaeth y gall fod ei hangen.

Yn ystod y flwyddyn, dadansoddwyd tri ar ddeg o adroddiadau arolygu ysgolion. Ni nodwyd barnau am ddarpariaeth ar gyfer YMCD bob amser, ond dangosir y patrwm a ddatblygodd yn y tabl isod.

| Eithriadol | Amrywiaeth Gyfoethog o Brofiad | Da | Hyrwyddwyd yn Dda / Effeithiol | Gwael/ Anfoddhaol | Ni Luniwyd Unrhyw Farn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 4 | 2 | 0 | 5 |

Nodwyd nifer o nodweddion da mewn ysgolion, ac mae'r tabl isod yn nodi'r rheiny a wnaed ar gyfer dwy ysgol neu fwy.

| *Nodweddion da YMCD a nodwyd mewn Adroddiadau Arolygu* | *Nifer yr ysgolion* |
|---|---|
| Darpariaeth allgyrsiol yn dda neu'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr | 13 ysgol |
| Cysylltiadau â'r gymuned leol a/neu gymryd rhan ynddi | 11 ysgol |
| Egluro a darparu'r Cwricwlwm Cymreig yn dda | 11 ysgol |
| Hyrwyddo/ymwybyddiaeth am ddatblygiad cynaliadwy | 10 ysgol |
| Arsylwi/hyrwyddo gwerthoedd/moesau da/parch | 10 ysgol |
| Dinasyddiaeth fyd-eang/addysg am y | 9 ysgol |

| | |
|---|---|
| byd/cysylltiadau rhyngwladol | |
| Rhaglen/effaith dda ABCh | 8 ysgol |
| Cyfraniadau at elusennau ac achosion da | 7 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill | 6 ysgol |
| Gwaith da neu effeithiol gan gyngor yr ysgol | 6 ysgol |
| Cyfraniad AG at ddatblygiad YMCD | 5 ysgol |
| Polisi ar Hiliaeth/hyrwyddo cytgord hiliol | 4 ysgol |
| Ymwybyddiaeth am iechyd/Menter Ysgolion Iach | 4 ysgol |
| Cydymffurfio â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd | 3 ysgol |
| Datblygiad cymdeithasol/sgiliau rhyngweithio | 3 ysgol |
| Darpariaeth/datblygiad moesol/cymdeithasol | 3 ysgol |
| Datblygiad diwylliannol | 3 ysgol |
| Cyfle cyfartal | 3 ysgol |
| Cyfleoedd i fyfyrio | 3 ysgol |
| Cyfraniad addoli ar y cyd at ddatblygiad YMCD | 3 ysgol |
| Datblygiad ysbrydol | 3 ysgol |
| Ansawdd y gweithredoedd addoli ar y cyd | 3 ysgol |
| Nodau ac ethos cyffredinol yr ysgol | 3 ysgol |
| Cyfraniad pynciau eraill at ddatblygiad YMCD | 3 ysgol |
| Cynnydd disgyblion/magu hyder/sgiliau | 3 ysgol |
| Cyfraniadau disgyblion at addoli ar y cyd | 2 ysgol |
| Ansawdd perthnasoedd | 2 ysgol |
| Cyfleoedd am gyfrifoldeb a menter | 2 ysgol |
| Ymweliadau â mannau addoli lleol | 2 ysgol |
| Cymeriad addoli ar y cyd | 2 ysgol |
| Defnyddio arddangosiadau/arteffactau i gryfhau addysgu a dysgu | 2 ysgol |
| Cyfleoedd i godi materion moesol a'u trafod | 2 ysgol |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir | 2 ysgol |
| Cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu | 2 ysgol |

Roedd yr holl nodweddion da eraill ar gyfer ysgolion unigol:

- Ymateb disgyblion i ddarpariaeth YMCD
- Staff yn fodelau rôl da i ddisgyblion
- Polisi ar addoli ar y cyd
- Cyfleoedd i gael gwybodaeth/ystyried gwerthoedd a chredoau
- Cyfleoedd i ddatblygu eu barnau eu hunain
- Cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
- Cyfleoedd i drafod/ansawdd trafodaeth
- Sgiliau byw annibynnol

O ran meysydd pryder, cafwyd llawer llai ohonynt.  Dim ond chwech a gafwyd mewn perthynas â mwy na dwy ysgol:

| *Meysydd pryder mewn YMCD a nodwyd mewn Adroddiadau Arolygu* | *Nifer yr ysgolion* |
|---|---|
| Darpariaeth y Cwricwlwm Cymreig | 4 ysgol |
| Cyfleoedd i fyfyrio | 3 ysgol |
| Hyrwyddo/ymwybyddiaeth am ddatblygiad cynaliadwy | 3 ysgol |
| Nodau ac ethos cyffredinol | 2 ysgol |
| Gweithredoedd addoli ar y cyd | 2 ysgol |
| Cynnydd disgyblion/magu hyder mewn sgiliau | 2 ysgol |

Roedd pob maes pryder arall ar gyfer ysgolion unigol, ac roeddent fel a ganlyn:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill
- Cyfleoedd am gyfrifoldeb a menter
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Arsylwi/hyrwyddo gwerthoedd/moesau da/parch
- Datblygiad ysbrydol
- Cyfraniadau disgyblion at weithredoedd addoli ar y cyd
- Dim polisi ar addoli ar y cyd
- Methu cydymffurfio â gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd
- Cyngor ysgol heb ei sefydlu

Yn yr un modd ag AG, mae'r llythyr a anfonir at ysgolion ar ôl ystyried eu Hadroddiad Arolygu yn canmol yr arfer da o ran darparu YMCD ac addoli ar y cyd, yn cynnig cymorth i ysgolion gyda meysydd pryder neu ddiffygion, ac yn awgrymu y dylai ysgolion hefyd ystyried eu sefyllfa mewn perthynas â'r materion pryder a godwyd ym mhob adroddiad yn y sesiwn honno. Canfu ysgolion fod y broses hon yn werthfawr ac yn ddefnyddiol.

<u>Ymweliadau Adolygu Cefnogol</u>
Yn yr un modd ag AG, ceir rhaglen o ymweliadau monitro Adolygu Cefnogol ag ysgolion, ac mae'n cynnwys dwy Ysgol Uwchradd a'r ysgolion cynradd yn eu dalgylch bob blwyddyn. Mae adroddiadau am yr ymweliad yn cynnwys Esboniad (sy'n amlinellu'r ymweliad), Nodweddion Da, Meysydd i'w Datblygu, Safonau, Argymhellion. Cytunir yr adroddiad â'r ysgol, ac mae'n rhan o brosesau hunanwerthuso'r ysgolion eu hunain. Caiff adrannau o'r adroddiadau eu rhannu gyda CYSAG, a nodir crynhoad o'r

materion ar draws y consortiwm. Caiff manylion y rhain ar gyfer y flwyddyn eu cynnwys isod. Anfonir llythyrau at ysgolion yn dilyn y trafodaethau yn CYSAG.

Cafwyd tair nodwedd dda yn unig ar gyfer mwy na dwy ysgol a nodwyd yn yr adroddiadau ymweliad:

| *Nodweddion da a nodwyd mewn Adroddiadau Adolygu Cefnogol* | *Nifer yr ysgolion* |
|---|---|
| Cynllunio a darparu ar gyfer gweithredoedd addoli ar y cyd | 8 ysgol |
| Cysylltiadau da â'r gymuned ffydd leol ar gyfer addoli ar y cyd | 4 ysgol |
| Ethos da/awyrgylch teuluol yr ysgol | 2 ysgol |

Roedd un nodwedd dda arall ar gyfer ysgol unigol:

- Defnyddio tystysgrifau cymryd rhan mewn addoli ar y cyd

  Nodwyd tri maes i'w datblygu yn unig, ac roedd y cyfan ar gyfer ysgolion unigol, fel a ganlyn:

- Diffyg addoli ar y cyd ar gyfer pob disgybl bob dydd
- Elfen grefyddol neu Gristnogol gweithredoedd addoli ar y cyd
- Diffyg ymglymiad y gymuned ffydd leol mewn gweithredoedd addoli

Mae argymhellion yn tueddu dilyn y meysydd i'w datblygu, ond yn yr un modd ag AG, roedd aelodau'n falch o nodi nifer yr ysgolion lle argymhellwyd cynnal yr arfer da o ran addoli ar y cyd. Roedd wyth ysgol lle dylid cynnal arfer da mewn addoli ar y cyd, a dwy ysgol arall lle dylid cynnal arfer da mewn AG ac addoli ar y cyd.

Cafwyd argymhelliad pellach mewn dwy ysgol, sef: nodi hanesion Beibl y gellid eu defnyddio mewn AG ac addoli ar y cyd. Roedd y gweddill i gyd ar gyfer ysgolion unigol, fel a ganlyn:

- Cynnal ethos cadarnhaol yr ysgol
- Cryfhau'r themâu ar gyfer addoli ar y cyd ymhellach
- Cwblhau polisi newydd ar gyfer addoli ar y cyd, a'r gwelliannau a fwriadwyd i'r patrwm ar gyfer yr ysgol
- Cymryd camau i sicrhau bod gan weithredoedd addoli ar y cyd elfen grefyddol neu Gristnogol glir iddynt, er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol
- Archwilio posibiliadau cynnwys y gymuned ffydd leol mewn gweithredoedd addoli ar y cyd o bryd i'w gilydd

Yn unol â'r broses gydag Adroddiadau Arolygu, ysgrifennir at ysgolion ar ôl i'w Hadolygiad Cefnogol gael ei drafod yn CYSAG, a chânt gopi o adroddiad y consortiwm cyfan.  Mae'r llythyr sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn llongyfarch yr ysgol am ei nodweddion da, ac yn cynnig cefnogaeth ar gyfer meysydd i'w datblygu. Canfu ysgolion fod y broses hon yn addysgiadol ac yn werthfawr, a rhannwyd llawer o arfer da drwyddi.

**b) Dogfennau Cyfarwyddo**

Rhoddwyd arweiniad yn flaenorol ar addoli ar y cyd, ac atgoffwyd ysgolion o bryd i'w gilydd fod yr arweiniad ar gael. Pan fydd staff yn symud ysgolion a phan benodir staff newydd, cânt wybod am yr arweiniad hwn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r deunydd cyfarwyddo hwn.

**c) Adnoddau a argymhellir**

Mae'r ddogfen gyfarwyddo y cyfeiriwyd ati uchod yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau a werthfawrogir ac a argymhellir neu a werthusir gan athrawon mewn swydd. Cynigir cyngor ychwanegol gan yr Arolygydd/Ymgynghorydd drwy ymweliadau ag ysgolion, p'un ai ar gyfer yr ymweliadau monitro Adolygu Cefnogol, cefnogaeth gynlluniedig, neu sesiynau HMS penodol mewn ysgolion.  Yn ogystal, cynigir cyngor mewn ymateb i geisiadau penodol.

**ch) HMS ar gyfer Addoli ar y Cyd**

Ni ddarparwyd unrhyw gyrsiau gan nad yw'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell yn caniatáu ariannu cyrsiau o'r fath. Gofynnwyd i'r AALl godi'r mater gydag Ymgynghorwyr Partneriaeth Addysgol Caergrawnt, a Price Waterhouse Cooper a oedd yn gweithio yn yr AALl. Nododd aelodau hefyd fod mater cyllid ar gyfer HMS wedi'i godi sawl gwaith gyda'r Gweinidog, ac na ddisgwyliwyd unrhyw newidiadau i'r fformiwla ariannu.

**d) Gwerthuso effeithiolrwydd arweiniad**

Ni chynhaliwyd unrhyw werthusiad ffurfiol o'r deunydd cyfarwyddo, ond mae ymatebion gan ysgolion i'r deunyddiau, a sylwadau a gynigir drwy ymweliadau ysgol wedi nodi cymaint y mae'r ysgolion wedi gwerthfawrogi'r deunyddiau, a'u defnyddio

wrth gynllunio a chryfhau eu darpariaeth.

**dd) Penderfyniadau**

Ni wnaed unrhyw gais am benderfyniad i CYSAG.

## 3) Materion Eraill

### a) Lleol

(i) Hyfforddi Llywodraethwyr – yn dilyn trafodaethau am y Cyfarwyddyd ar gyfer Adroddiadau CYSAG Blynyddol, gofynnodd aelodau i'r AALl gyfeirio'n ffurfiol at AG a'r Maes Llafur Cytûn yn rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr yr AALl, a gofyn i wefan Llywodraethwyr Cymru gynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau Llywodraethwyr o ran AG a darparu addoli ar y cyd.

(ii) Aelodau CYSAG yn ymweld â'r ysgol – codwyd y mater hwn hefyd wrth astudio'r ddogfen Gyfarwyddo. Roedd rhan fwyaf o aelodau CYSAG yn cysylltu neu'n ymwneud yn rheolaidd ag ysgolion, ond estynnwyd gwahoddiad i unrhyw aelod fynychu un o ysgolion Babanod y Sir yn ystod Tymor yr Hydref pe dymunent.

### b) Cenedlaethol

(i) <u>Estyn:</u>
Cafodd aelodau ddetholiadau perthnasol o Adroddiad Blynyddol yr SPAEM, ac roeddent wrth eu bodd i nodi:

- Bod rhywfaint o'r gwaith gorau yn CA 1 a 2 yn cynnwys gwaith AG
- Y cynnydd mawr yn nifer yr ymgeiswyr ar gyfer y Cwrs Byr yn 2005
- AG oedd un o'r pynciau lle cafwyd rhai o'r safonau uchaf yn CA 3 a 4
- Mewn ysgolion cynradd, roedd darpariaeth YMCD yn eithriadol yn nwy o bob pum ysgol, ac roedd addoli ar y cyd yn chwarae rhan bwysig wrth ddysgu disgyblion i ofalu am eraill
- Mae llawer mwy o ysgolion uwchradd yn darparu addoli ar y cyd bob dydd, er bod un o bob chwech yn methu o hyd.

(ii) <u>ACCAC/AADGOS:</u>

a. *Adolygiad o Adroddiadau CYSAG Blynyddol 2003 – 4 a 2004 – 5.* Cafwyd y ddogfen adolygu hon ac fe nodwyd y

materion. Cytunwyd yr ymatebion i'r argymhellion a'r crynodeb gweithredol fel a ganlyn:

- Cynigiwyd deunyddiau cyfarwyddo a chefnogi yn rheolaidd; roedd adborth a sylwadau cyffredinol wedi rhoi tystiolaeth fod y deunydd yn ddefnyddiol ac wedi cael effaith, ond ni fyddai unrhyw 'asesiad' ffurfiol yn cael ei gynnal.
- Mae CYSAG, mewn cydweithrediad â'r AALl, wedi buddsoddi mewn system o fonitro darpariaeth a safonau mewn AG ac addoli ar y cyd, ac yn casglu'r wybodaeth hon yn dymhorol ac yn flynyddol; hyd yma, bu'r broses o werth a budd enfawr i ysgolion, ac mae CYSAG a'r AALl wedi cael gwybod llawer mwy am safonau a materion yn eu hysgolion.
- Dadansoddir canlyniadau arholiad yn CYSAG bob Tymor y Gwanwyn, ac mae'r ffigurau a'r ymatebion i'r trafodaethau, ynghyd ag unrhyw weithredu dilynol – yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad blynyddol.
- Bu CYSAG yn adrodd erioed am sesiynau HMS mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, ond nid oedd y newidiadau i feini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell wedi caniatáu cynnig cyrsiau cwricwlwm. Roedd yn anodd gweld beth arall y gallai CYSAG a'r AALl ei wneud, o ystyried y fformiwla gyfredol.
- Mae'r rhaglen fonitro y cyfeirir ati uchod yn cynnwys ystyried addoli ar y cyd. Os oes materion wedi'u cydnabod, cawsant eu nodi, ac aethpwyd i'r afael â hwy drwy waith yr Arolygydd/Ymgynghorydd.
- Bu CYSAG yn gweithio ar y cyd â chynghorau CYSAG lleol eraill a CCYSAGC. Rhannu arfer da fu un o ganlyniadau eraill y broses fonitro ac adrodd, a bu ysgolion yn gallu helpu ei gilydd hefyd. Mae holl waith y CYSAG a'r Arolygydd/Ymgynghorydd yn ymroi i gefnogi datblygiad AG ac addoli ar y cyd o ansawdd yn yr ysgolion. Mae adborth a sylwadau cyffredinol wedi nodi bod ysgolion wedi croesawu a gwerthfawrogi'r broses. Mae'n ymddangos bod yr Adroddiadau Blynyddol a'r dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu yn nodi bod effaith yn narpariaeth a safonau AG ac addoli ar y cyd yn yr AALl. Ni ystyriwyd bod angen unrhyw asesiad neu werthusiad ffurfiol ar hyn o bryd.
- Cafodd arweiniad ar ddulliau addysgu a dewis adnoddau addysgu ei gynnwys mewn deunyddiau cefnogi a oedd ynghlwm wrth y Maes Llafur Cytûn ac yn ei ddilyn. Yn y gorffennol, bu HMS yn rhoi cyngor o ran addysgu a dysgu (er bod hyn yn llawer llai nag y bu oherwydd y newidiadau

i feini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell). Ni chynigiwyd unrhyw gyngor ffurfiol o ran adnoddau addysgu, ond mae'r Arolygydd/Ymgynghorydd yn cynghori ysgolion yn ystod ymweliadau monitro a chefnogaeth gynlluniedig, neu pan ofynnir iddo neu wrth ymwneud â sesiynau HMS mewn ysgolion. Gofynnwyd i'r AALl edrych ar y mater hwn yn rhan o'r adolygiad o'r Maes Llafur Cytûn ar ôl Adolygiad AADGOS o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

- Materion cymunedol: digwyddiadau amlddiwylliannol ac amlffydd. Yn y gorffennol, trefnwyd digwyddiadau i hyrwyddo dealltwriaeth yn y meysydd hyn, ac i atgyfnerthu addysg grefyddol o ansawdd da i bob disgybl. Fodd bynnag, mae trefnu'r math hwn o ddigwyddiadau'n cymryd llawer iawn o amser, ymdrech ac adnoddau ariannol, ac ni fu'n bosibl darparu'r rhain yn rheolaidd. Mae CYSAG wedi ymdrechu hefyd i geisio cyllid ar gyfer digwyddiadau felly o amrywiaeth o ffynonellau, ond heb lwyddiant.

b. *Arweiniad ar Ffocws a Strwythur Adroddiadau Blynyddol*
Trafodwyd y ddogfen hon yn fanwl, ac er bod y CYSAG yn cytuno mewn egwyddor i ddilyn yr arweiniad, nododd nad oedd yr arweiniad yn adlewyrchu'r berthynas gadarnhaol ac ystyrlon a'r arferion gwaith yr oedd gan y CYSAG a'r AALl. Teimlwyd hefyd y byddai adrodd CYSAG yn eithaf diwerth a ffug pe byddai'n dilyn y math hwn o adrodd.

(iii) <u>CCYSAGC</u>
Cynrychiolwyd y CYSAG a'r AALl yn rhan fwyaf o gyfarfodydd CCYSAGC, a chawsant rai o'r cyflwyniadau a wnaed. Nododd yr aelodau canlyniadau'r cyfarfod â'r Gweinidog, ac roeddent yn ddiolchgar y gallai'r Gymdeithas gynnal y deialog blynyddol. Gwnaeth yr aelodau ofyn hefyd i'r AALl annog athrawon i fynychu'r gynhadledd arbennig a gynhaliwyd ym mis Mai 2006 mewn cysylltiad ag AADGOS, ac anfon cynrychiolwyr o bob grŵp ar CYSAG hefyd. Cafwyd adroddiadau am y diwrnod, ac edrychai aelodau ymlaen at yr Adroddiad am y Gynhadledd, ac at ddogfennau'r Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn gynnar yn 2007.

## c) Materion Eraill

(i) *Ymweliad yr Arolygydd/Ymgynghorydd ag Uganda*.
Roedd aelodau'n falch o gael yr adroddiad a chlywed am waith yr Arolygydd/Ymgynghorydd gyda chartrefi plant amddifaid, ysgolion, colegau ac amryw brosiectau eraill yn ystod

ei ymweliad ag Uganda.  Cofnodwyd bod yr Arolygydd/Ymgynghorydd yn diolch i'r tri AALl am gytuno iddo wneud yr ymweliadau hyn.

(ii) *Llythyr gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Caplaniaid mewn ysgolion*
Cyfeiriodd yr AALl y llythyr hwn at CYSAG i'w ystyried, a chafodd y materion a gododd eu trafod yn llawn, a chytunwyd y dylid argymell yr AALL i:

- Anfon copi o'r llythyr o Eglwys Bresbyteraidd Cymru at yr ysgolion, a rhoi gwybod iddynt am y trafodaethau;
- Atgoffa ysgolion fod penodi staff yn fater ysgol, ac awgrymu efallai yr hoffai'r ysgol archwilio ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau anffurfiol â'r cymunedau ffydd lleol;
- Annog cynrychiolwyr crefyddol ar CYSAG i sicrhau bod eu personél lleol yn cynnig eu gwasanaethau i ysgolion yn eu hardaloedd.

Cyflëwyd y penderfyniad i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac anfonwyd y llythyrau priodol at ysgolion.

(iii) *Llythyr gan Esgobaeth Gatholig Wrecsam – ynglŷn â chynghori a monitro Ysgolion yr Esgobaethol*
Cafodd yr Arolygydd/Ymgynghorydd lythyr gan yr Esgobaeth a oedd yn gofyn iddo ohirio pob ymweliad ag ysgolion yr Esgobaethol hyd nes trafodir protocol.  Trefnwyd cyfarfod rhwng swyddogion AALl a swyddogion yr Esgobaeth, a chytunwyd ar y canlyniadau canlynol:

- Byddai'r Esgobaeth yn cynnal pob ymweliad cefnogi, cynghori a monitro â'u hysgolion
- Byddai'r Esgobaeth yn darparu Adroddiadau Arolygu Adran 50 ac adroddiadau monitro, mewn modd tebyg i'r rheiny a ddefnyddir gan CYSAG, i'w cynnwys yn y darlun o ddarpariaeth AG ac addoli ar y cyd yn y CYSAG a'r AALl.

(iv) *Cwynion*
Ni chafwyd unrhyw gwynion gan y CYSAG.

## 4. Atodiadau:

### a) Cyfansoddiad CYSAG

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol:**

Yr Eglwys yng Nghymru
Terry Bryer
Sylvia Harris

Catholig

James Kirkham

Undeb y Bedyddwyr
Dr C W Jones (Cymru)
Aros am enwebiad (Lloegr)

Presbyteraidd
y Parch. Brian H Jones (Cymru)
Mary Colbert (Lloegr)

Methodistiaid
Heulwen Ellis

Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Undeb Annibynwyr Cymru
Mona Evans

Cymdeithas Grefyddol Ffrindiau
Peter Speirs

Byddin yr Iachawdwriaeth
Uwch-gapten David Evans

Mudiad Efengylaidd Cymru
y Parch. Philip J Collinson

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon:**

Pennaeth Uwchradd
Aros am enwebiad

Pennaeth Iau
Aros am enwebiad

Arbenigwyr AG Uwchradd
Delyth Williams

Pennaeth Babanod
Julia Buckley Jones

Athrawon Ysgolion Arbennig
Isobel Barros-Curtis

Athrawes Dosbarth Iau
Maxine Bradshaw

Athrawes Dosbarth Babanod
Mrs Mairwenna Lloyd

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

y Cynghorydd D Owens
y Cynghorydd M M Jones
y Cynghorydd K N Hawkins
y Cynghorydd G C Evans

y Cynghorydd N Hugh-Jones
y Cynghorydd G J Pickering
y Cynghorydd C L Hughes
y Cynghorydd G A Jones

**Aelodau Cyfetholedig**

Canolfan Genedlaethol Cymru
ar gyfer Mudiad AG Cymru
Y Parch. Athro Leslie J Francis

Addysg Gristnogol
Aros am enwebiad

**b) Nifer a dyddiadau'r cyfarfodydd**

**11 Hydref 2005**
**8 Chwefror 2006**
**3 Gorffennaf 2006**

**c) Sefydliadau sy'n cael yr adroddiad**

AADGOS
Holl ysgolion a cholegau'r AALl
Canolfan AG Genedlaethol Cymru
Pob AALl yng Nghymru
Esgobaeth Llanelwy
Esgobaeth Bangor
Esgobaeth Wrecsam
Coleg y Drindod, Caerfyrddin
Y Gynghrair Efengylaidd
CCYSAGC

## ch) Tystiolaeth â ffocws pendant: ystadegau

***Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 1*** ***TGAU 2005 : PAWB - ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighsire Schools - Table 1** **GCSE 2005 - ALL - RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A* | % | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | F | % | G | % | U | % | % A*-C | % A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 36 | 23.8 | 5 | 13.9 | 5 | 13.9 | 6 | 16.7 | 6 | 16.7 | 7 | 19.4 | 4 | 11.1 | 1 | 2.8 | 2 | 5.6 | 0 | 0.0 | 61.2 | 100 |
| Glan Clwyd | 11 | 7.9 | 2 | 18.2 | 2 | 18.2 | 2 | 18.2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 9.1 | 1 | 9.1 | 3 | 27.3 | 0 | 0.0 | 54.6 | 100 |
| Prestatyn | 188 | 66.9 | 21 | 11.2 | 33 | 17.6 | 32 | 17.0 | 37 | 19.7 | 18 | 9.6 | 12 | 6.4 | 13 | 6.9 | 15 | 8.0 | 7 | 3.7 | 65.4 | 96.3 |
| Dinas Brân | 9 | 4.9 | 0 | 0.0 | 1 | 11.1 | 2 | 22.2 | 1 | 11.1 | 1 | 11.1 | 4 | 44.4 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 44.4 | 100 |
| Brynhyfryd | 20 | 9.5 | 2 | 10.0 | 2 | 10 | 2 | 10.0 | 2 | 10.0 | 2 | 10.0 | 4 | 20.0 | 2 | 10.0 | 3 | 15.0 | 1 | 5.0 | 40.0 | 95.0 |
| Y Rhyl / Rhyl | 5 | 2.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 3 | 60.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 2 | 40.0 | 0 | 0.0 | 60.0 | 100 |
| Ben. EdwardJones/ Bl Edward Jones | 43 | 50.9 | 0 | 0.0 | 2 | 4.7 | 5 | 11.6 | 11 | 25.6 | 9 | 20.9 | 10 | 23.3 | 2 | 4.7 | 4 | 9.3 | 0 | 0.0 | 41.9 | 100 |
| Santes Ffraid/ St Brigid's | 46 | 93.9 | 13 | 28.3 | 11 | 23.9 | 13 | 28.3 | 7 | 15.2 | 1 | 2.2 | 1 | 2.2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 65.7 | 100 |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 358 | | 43 | 12.0 | 56 | 15.6 | 62 | 17.3 | 67 | 18.7 | 38 | 10.6 | 36 | 10.1 | 19 | 5.3 | 29 | 8.1 | 8 | 2.2 | 63.7 | 97.8 |
| Cronnol / Cumulative | 358 | | 43 | 12.0 | 99 | 27.7 | 161 | 45.0 | 228 | 63.7 | 266 | 74.3 | 302 | 84.4 | 321 | 89.7 | 350 | 97.8 | 358 | 100 | 63.7 | 97.8 |
| Cymru gyfan/ All Wales | 6507 | | 788 | 12.1 | 1981 | 30.4 | 3419 | 52.5 | 4566 | 70.2 | 5248 | 80.7 | 5737 | 88.2 | 6058 | 93.1 | 6285 | 96.6 | 6507 | 100 | 70.2 | 96.6 |

***Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 2*** ***TGAU 2005 : BECHGYN - ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighsire Schools - Table 2** **GCSE 2005 – BOYS – RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A* | % | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | F | % | G | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 6 | 7.4 | 0 | 0.0 | 1 | 16.7 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 1 | 16.7 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 66.7 | 100 |
| Glan Clwyd | 3 | 3.7 | 1 | 33.3 | 1 | 33.3 | 1 | 33.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 100 | 100 |
| Prestatyn | 78 | 58.6 | 5 | 6.4 | 9 | 11.5 | 18 | 23.1 | 12 | 15.4 | 7 | 9.0 | 6 | 7.7 | 8 | 10.3 | 9 | 11.5 | 4 | 5.1 | 56.4 | 94.9 |
| Dinas Brân | 1 | 1.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 100 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 100 | 100 |
| Brynhyfryd | 9 | 7.3 | 0 | 0.0 | 1 | 11.1 | 2 | 22.2 | 0 | 0.0 | 1 | 11.1 | 1 | 11.1 | 2 | 22.2 | 2 | 22.2 | 0 | 0.0 | 33 | 100 |
| Y Rhyl / Rhyl | 1 | 0.9 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 100 | 0 | 0.0 | 0.0 | 100 |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | 21 | 44.7 | 0 | 0.0 | 1 | 4.8 | 3 | 14.3 | 6 | 28.6 | 3 | 14.3 | 5 | 23.8 | 0 | 0.0 | 3 | 14.4 | 0 | 0.0 | 47.6 | 100 |
| Santes Ffraid/ St Brigid’s | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 119 | | 6 | 5.0 | 13 | 10.9 | 27 | 22.7 | 19 | 16.0 | 12 | 10.1 | 13 | 10.9 | 10 | 8.4 | 15 | 12.6 | 4 | 3.4 | 54.6 | 96.6 |
| Cronnol / Cumulative | 119 | | 6 | 5.0 | 19 | 16.0 | 46 | 38.7 | 65 | 54.6 | 77 | 64.7 | 90 | 75.6 | 100 | 84.0 | 115 | 96.6 | 119 | 100 | 54.6 | 96.6 |
| Cymru gyfan/ All Wales | 2323 | | 164 | 7.1 | 523 | 22.5 | 995 | 42.8 | 1447 | 62.3 | 1713 | 73.7 | 1930 | 83.1 | 2082 | 89.6 | 2211 | 95.2 | 2323 | 100 | 62.3 | 95.2 |

*Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 3* *TGAU 2005 : MERCHED - ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*

**Denbighsire Schools - Table 3** **GCSE 2005 – GIRLS – RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A* | % | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | F | % | G | % | U | % | % A*-C | % A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 30 | 42.9 | 5 | 16.7 | 4 | 13.3 | 4 | 143.3 | 5 | 16.7 | 6 | 20.0 | 3 | 10.0 | 1 | 3.3 | 2 | 6.7 | 0 | 0.0 | 60.0 | 100 |
| Glan Clwyd | 8 | 13.8 | 1 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 | 12.5 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 12.5 | 1 | 12.5 | 3 | 37.5 | 0 | 0.0 | 37.5 | 100 |
| Prestatyn | 110 | 74.3 | 16 | 14.5 | 24 | 21.8 | 14 | 12.7 | 25 | 22.7 | 11 | 10.0 | 6 | 5.5 | 5 | 4.5 | 6 | 5.5 | 3 | 2.7 | 71.8 | 97.3 |
| Dinas Brân | 8 | 8.1 | 0 | 0 | 1 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 | 12.5 | 1 | 12.5 | 4 | 50.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 37.5 | 100 |
| Brynhyfryd | 11 | 12.5 | 2 | 18.2 | 1 | 9.1 | 0 | 0.0 | 2 | 18.2 | 1 | 9.1 | 3 | 27.3 | 0 | 0.0 | 1 | 9.1 | 1 | 9.1 | 45.5 | 90.9 |
| Y Rhyl / Rhyl | 4 | 3.8 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 3 | 75.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 25.0 | 0 | 0.0 | 75.0 | 100 |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | 22 | 57.9 | 0 | 0.0 | 1 | 4.5 | 2 | 9.1 | 5 | 22.7 | 6 | 27.3 | 5 | 22.7 | 2 | 9.1 | 1 | 4.5 | 0 | 0.0 | 36.4 | 100 |
| Santes Ffraid/ St Brigid's | 46 | 93.9 | 13 | 28.3 | 11 | 23.9 | 13 | 28.3 | 7 | 15.2 | 1 | 2.2 | 1 | 2.2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 95.7 | 100 |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 239 | | 37 | 15.5 | 43 | 18.0 | 35 | 14.6 | 48 | 20.1 | 26 | 10.9 | 23 | 9.6 | 9 | 3.8 | 14 | 5.9 | 4 | 1.7 | 68.2 | 98.3 |
| Cronnol / Cumulative | 239 | | 37 | 15.5 | 80 | 33.5 | 115 | 48.1 | 163 | 68.2 | 189 | 79.1 | 212 | 88.7 | 221 | 92.5 | 235 | 98.3 | 239 | 100 | 68.2 | 98.3 |
| Cymru Gyfan/ All Wales | 4184 | | 624 | 14.9 | 1458 | 34.8 | 2424 | 57.9 | 3119 | 74.5 | 3535 | 84.5 | 3807 | 91.0 | 3976 | 95.0 | 4074 | 97.4 | 4184 | 100 | 74.5 | 97.4 |

***Ysgolion Sir Ddinbych   Tabl 4***　　***TGAU 2005 : PAWB - ASTUDIAETHAU CREFYDDOL – CWRS BYR***

**Denbighsire  Schools - Table 4**　　**GCSE 2005 – ALL – RELIGIOUS STUDIES – SHORT COURSE**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A* | % | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | F | % | G | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 51 | 33.7 | 7 | 13.7 | 4 | 7.8 | 9 | 17.6 | 16 | 31.4 | 9 | 17.6 | 0 | 0.0 | 5 | 9.8 | 1 | 2.0 | 0 | 0.0 | 70.6 | 100 |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 10 | 3.6 | 0 | 0.0 | 1 | 10.0 | 1 | 10.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 10.0 | 4 | 40.0 | 3 | 30.0 | 20.0 | 70.0 |
| Dinas Brân | 140 | 71.0 | 0 | 0.0 | 2 | 1.4 | 11 | 7.9 | 33 | 23.6 | 28 | 20.0 | 20 | 14.3 | 19 | 13.6 | 16 | 11.4 | 11 | 7.9 | 32.9 | 92.1 |
| Brynhyfryd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Rhyl / Rhyl | 109 | 49.8 | 6 | 5.5 | 12 | 11.0 | 25 | 22.9 | 23 | 21.1 | 12 | 11.0 | 7 | 6.4 | 11 | 10.1 | 7 | 6.4 | 6 | 5.5 | 60.6 | 94.5 |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | 15 | 17.6 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 6.7 | 1 | 6.7 | 1 | 6.7 | 4 | 26.7 | 7 | 46..7 | 1 | 6.7 | 6.7 | 93.3 |
| Santes Ffraid/ St Brigid's | 47 | 95.9 | 12 | 25.5 | 10 | 21.3 | 15 | 32.0 | 7 | 14.9 | 2 | 4.3 | 0 | 0.0 | 1 | 2.1 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 93.6 | 100 |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 372 | | 25 | 6.7 | 29 | 7.8 | 61 | 16.4 | 80 | 21.5 | 52 | 14.0 | 28 | 7.5 | 41 | 11.0 | 35 | 9.4 | 21 | 5.6 | 52.4 | 94.4 |
| Cronnol / Cumulative | 372 | | 25 | 6.7 | 54 | 14.5 | 115 | 30.9 | 195 | 52.4 | 247 | 66.4 | 275 | 73.9 | 316 | 84.9 | 351 | 94.4 | 372 | 100 | 52.4 | 94.4 |
| Cymru Gyfan/ All Wales | 13320 | | 1112 | 8.3 | 2653 | 19.9 | 4942 | 37.1 | 7822 | 58.7 | 9492 | 71.3 | 10924 | 82.0 | 12058 | 90.5 | 12798 | 96.1 | 13320 | 100 | 58.7 | 96.1 |

*Ysgolion Sir Ddinbych   Tabl 5*    ***TGAU 2005 : BECHGYN- ASTUDIAETHAU CREFYDDOL – CWRS BYR***

**Denbighsire  Schools - Table 5**    **GCSE 2005 – BOYS – RELIGIOUS STUDIES – SHORT COURSE**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A* | % | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | F | % | G | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 15 | 18.5 | 0 | 0.0 | 2 | 13.3 | 4 | 26.7 | 3 | 20.0 | 3 | 20.0 | 0 | 0.0 | 3 | 20.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 60.0 | 100 |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 8 | 6.0 | 0 | 0.0 | 1 | 12.5 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 12.5 | 3 | 37.5 | 3 | 37.5 | 12.5 | 62.5 |
| Dinas Brân | 66 | 67.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 4 | 6.1 | 14 | 21.2 | 10 | 15.2 | 8 | 12.1 | 12 | 18.2 | 9 | 13.6 | 9 | 13.6 | 27.3 | 86.4 |
| Brynhyfryd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Rhyl / Rhyl | 50 | 44.2 | 2 | 4.0 | 3 | 6.0 | 10 | 20.0 | 12 | 24.0 | 5 | 10.0 | 5 | 10.0 | 6 | 12.0 | 4 | 8.0 | 3 | 6.0 | 54.0 | 94.0 |
| Ben. EdwardJones/ Bl Edward Jones | 10 | 21.2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 10.0 | 0 | 0.0 | 4 | 40.0 | 5 | 50.0 | 0 | 0.0 | 0.0 | 100 |
| Santes Ffraid/ St Brigid's | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 149 | | 2 | 1.3 | 6 | 4.0 | 18 | 12.1 | 29 | 19.5 | 19 | 12.8 | 13 | 8.7 | 26 | 17.4 | 21 | 14.1 | 15 | 10.1 | 36.9 | 89.9 |
| Cronnol / Cumulative | 149 | | 2 | 1.3 | 8 | 5.4 | 26 | 17.4 | 55 | 36.9 | 74 | 49.7 | 87 | 58.4 | 113 | 75.8 | 134 | 89.9 | 149 | 100 | 36.9 | 89.9 |
| Cymru Gyfan/ All Wales | 6165 | | 301 | 4.9 | 876 | 14.2 | 1817 | 29.5 | 3150 | 51.1 | 4006 | 65.0 | 4765 | 77.3 | 5391 | 87.4 | 5809 | 94.2 | 6165 | 100 | 51.1 | 94.2 |

*Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 6* *TGAU 2005 : MERCHED- ASTUDIAETHAU CREFYDDOL – CWRS BYR*

**Denbighsire Schools - Table 6** **GCSE 2005 – GIRLS – RELIGIOUS STUDIES – SHORT COURSE**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A* | % | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | F | % | G | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 36 | 51.4 | 7 | 19.4 | 2 | 5.6 | 5 | 13.9 | 13 | 36.1 | 6 | 16.7 | 0 | 0.0 | 2 | 5.6 | 1 | 2.8 | 0 | 0.0 | 75.0 | 100 |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 2 | 1.4 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 50.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 50.0 | 0 | 0.0 | 50.0 | 100 |
| Dinas Brân | 74 | 74.7 | 0 | 0.0 | 2 | 2.7 | 7 | 9.5 | 19 | 25.7 | 18 | 24.3 | 12 | 16.2 | 7 | 9.5 | 7 | 9.5 | 2 | 2.7 | 37.8 | 97.3 |
| Brynhyfryd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Rhyl / Rhyl | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | 5 | 13.1 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 20.0 | 0 | 0.0 | 1 | 20.0 | 0 | 0.0 | 2 | 40.0 | 1 | 20.0 | 20.0 | 80.0 |
| Santes Ffraid/ St Brigid’s | 47 | 95.9 | 12 | 25.5 | 10 | 21.3 | 15 | 31.9 | 7 | 14.9 | 2 | 4.3 | 0 | 0.0 | 1 | 2.1 | 0 | 0.0 | 2 | 0.0 | 93.6 | 100 |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 164 | | 19 | 11.6 | 14 | 8.5 | 28 | 17.1 | 40 | 24.4 | 26 | 15.9 | 13 | 7.9 | 10 | 6.1 | 11 | 6.7 | 3 | 1.8 | 61.6 | 98.2 |
| Cronnol / Cumulative | 164 | | 19 | 11.6 | 33 | 20.1 | 61 | 37.2 | 101 | 61.6 | 127 | 77.4 | 140 | 85.4 | 150 | 91.5 | 161 | 98.2 | 164 | 100 | 61.6 | 98.2 |
| Cymru Gyfan/ All Wales | 7155 | | 811 | 11.3 | 1777 | 24.8 | 3125 | 43.7 | 4672 | 65.3 | 5486 | 76.7 | 6159 | 86.1 | 6667 | 93.2 | 6989 | 97.7 | 7155 | 100 | 65.3 | 97.7 |

*Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 7* *TAG SAFON UWCH 2005 : PAWB - ASTUDIAETHAU CREFYDDOL*

**Denbighsire Schools - Table 7** **GCE ADVANCED LEVEL 2005 – ALL – RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 6 | 1 | 16.7 | 2 | 2 | 33.3 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 83.3 | 100 |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 12 | 2 | 16.7 | 5 | 5 | 41.7 | 4 | 33.3 | 1 | 8.3 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 92.0 | 100 |
| Dinas Brân | 1 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 100 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0.0 | 100 |
| Brynhyfryd | 10 | 1 | 10.0 | 0 | 0 | 0.0 | 2 | 20.0 | 7 | 70.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 30.0 | 100 |
| Y Rhyl / Rhyl | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Santes Ffraid/ St Brigid's | 6 | 1 | 16.7 | 0 | 0 | 0.0 | 1 | 16.7 | 3 | 50.0 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 33.3 | 100 |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 35 | 5 | 14.3 | 7 | 7 | 20.0 | 9 | 25.7 | 13 | 37.1 | 1 | 2.9 | 0 | 0.0 | 60.0 | 100 |
| | 35 | 5 | 14.3 | 12 | 12 | 34.3 | 21 | 60.0 | 34 | 97.1 | 35 | 100 | 35 | 100 | 60.0 | 100 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronnol / Cumulative | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cymru Gyfan/ All Wales | 793 | 120 | 15.1 | 308 | 308 | 38.8 | 519 | 65.4 | 691 | 87.1 | 777 | 98.0 | 793 | 100 | 65.4 | 98.0 |

***Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 8*** ***TAG SAFON UWCH 2005 : BECHGYN- ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighsire Schools - Table 8** **GCE ADVANCED LEVEL 2005 – BOYS – RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 2 | 0 | 0.0 | 2 | 100 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 100 | 100 | 100 |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 2 | 1 | 50.0 | 0 | 0.0 | 1 | 50.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 100 | 100 | 100 |
| Dinas Brân | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | 2 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 50.0 | 1 | 50.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 50.0 | 100 | 100 |
| Y Rhyl / Rhyl | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Santes Ffraid/ St Brigid’s | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 6 | 1 | 16.7 | 2 | 33.3 | 2 | 33.3 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 83.0 | 100 | 100 |
| Cronnol / Cumulative | 6 | 1 | 16.7 | 3 | 50.0 | 5 | 83.0 | 6 | 100 | 6 | 100 | 6 | 100 | 83.0 | 100 | 100 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan/ All Wales | 176 | 27 | 15.3 | 67 | 38.1 | 109 | 61.9 | 145 | 82.4 | 171 | 97.2 | 176 | 100 | 61.9 | 97.2 | 97.2 |

***Ysgolion Sir Ddinbych Tabl 9*** ***TAG SAFON UWCH 2005 : MERCHED- ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighsire Schools - Table 9** **GCE ADVANCED LEVEL 2005 – GIRLS – RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | A | % | B | % | C | % | D | % | E | % | % | U | % | A*-C | A*-G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | 4 | 1 | 25.0 | 0 | 0.0 | 2 | 50.0 | 1 | 25.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0.0 | 75.0 | 100 |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | 10 | 1 | 10.0 | 5 | 50.0 | 3 | 30.0 | 1 | 10.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0.0 | 90.0 | 100 |
| Dinas Brân | 1 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 1 | 100 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0.0 | 0.0 | 100 |
| Brynhyfryd | 8 | 1 | 12.5 | 0 | 0.0 | 1 | 12.5 | 6 | 75.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0.0 | 25.0 | 100 |
| Y Rhyl / Rhyl | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Santes Ffraid/ St Brigid's | 6 | 1 | 16.7 | 0 | 0.0 | 1 | 16.7 | 3 | 50.0 | 1 | 16.7 | 16.7 | 0 | 0.0 | 33.3 | 100 |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 29 | 4 | 13.8 | 5 | 17.2 | 7 | 24.1 | 12 | 41.4 | 1 | 3.4 | 3.4 | 0 | 0.0 | 55.2 | 100 |
| Cronnol / Cumulative | 29 | 4 | 13.8 | 9 | 31.0 | 16 | 55.2 | 28 | 96.6 | 29 | 100 | 100 | 29 | 100 | 55.2 | 100 |
| | 617 | 93 | 15.1 | 241 | 39.1 | 410 | 66.5 | 546 | 88.5 | 606 | 98.2 | 98.2 | 617 | 100 | 66.5 | 98.2 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Gyfan/ All Wales | | | | | | | | | | | | | | | | |

***Ysgolion Sir Ddinbych   Tabl 10***   ***TCA 2005 : PAWB -  ASTUDIAETHAU CREFYDDOL***

**Denbighsire  Schools - Table 10**   **COEA 2005 – ALL– RELIGIOUS STUDIES**

| Ysgolion/ Schools | Cyfansymiau/ Totals | % Carfan /Cohort | 3 | % | 2 | % | 1 | % | U | % | % Graddau Llwyddo/ Pass Grades 3 - 1 | % yr Holl Raddau / % All Grades |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych Denbigh | | | | | | | | | | | | |
| Glan Clwyd | | | | | | | | | | | | |
| Prestatyn | | | | | | | | | | | | |
| Dinas Brân | | | | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | | | | | | | | | | | | |
| Y Rhyl / Rhyl | 43 | 19.6 | 2 | 4.7 | 9 | 20.9 | 27 | 62.8 | 5 | 11.6 | 88.4 | 100 |
| Ben. Edward Jones/ Bl Edward Jones | 25 | 29.4 | 9 | 36.0 | 9 | 36.0 | 3 | 12.0 | 4 | 16.0 | 84.0 | 100 |
| Santes Ffraid/ St Brigid’s | | | | | | | | | | | | |
| Cyfansymiau AALl / LEA Totals | 68 | | 11 | 16.2 | 18 | 26.5 | 30 | 44.1 | 9 | 13.2 | 86.8 | 100 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronnol / Cumulative | 68 | | 11 | 16.2 | 29 | 42.7 | 59 | 86.8 | 68 | 100 | 86.8 | 100 |
| Cymru Gyfan/ All Wales | 465 | | 146 | 31.4 | 287 | 61.7 | 430 | 92.5 | 465 | 100 | 92.5 | 100 |

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**

**(CYSAD)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18fed Hydref 2006 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **5** | Adroddiad: | **Dadansoddi Adroddiadau Archwilio Estyn** |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Fel rhan o'i rôl fonitro, mae CYSAD yn arolygu elfennau Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol (YMCD) ac Addysg Grefyddol Adroddiadau Archwilio Estyn ar ysgolion yn yr AALl.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Dadansoddi'r sylwadau a wnaed yn Adroddiadau Archwilio diweddar Estyn ar ysgolion yn yr AALl, a chydnabod yr agweddau positif a negyddol yn y ddarpariaeth YMCD, ac AG pan roedd yn rhan o'r archwiliad.

*Argymhellion:*

I CYSAD:

- derbyn dadansoddiad o'r Adroddiadau Archwilio;
- cytuno bod llythyrau'n cael eu hanfon i'r ysgolion a archwiliwyd, yn eu llongyfarch ar y nodweddion da ac yn cynnig gwasanaethau Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALl i ddelio gyda gwendidau neu faterion allweddol;
- gofyn i'r AALl ddosbarthu'r llythyrau uchod;

I'r AALl:

- gynnig gwasanaethau Arolygydd/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALl i gynorthwyo ysgolion gyda delio gyda gwendidau neu faterion allweddol;
- dosbarthu'r llythyrau gan CYSAD i'r ysgolion.

# SYLWADAU MEWN CYD-DESTUN: ADRODDIADAU AROLYGIAD CYSAG SIR DDINBYCH
## 18 Hydref 2006

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiad</th><th>Arolygwr Cofrestredig</th><th>Arolygiad datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol / Cwestiwn Allweddol 3</th><th>Arolygiad Addysg Grefyddol</th></tr>
<tr><td>Ysgol Dyffryn Iâl</td><td>3 – 4 Ebrill 2006</td><td>Parch. T Roberts</td><td>Adran 50</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae Ysgol Dyffryn Iâl yn ysgol ag adeiladau ar ddau safle ar wahân, gyda 6 milltir rhyngddynt. Rheolir gweithgareddau o ddydd i ddydd yr ysgol gan Bennaeth ysgol eglwysig arall yn yr un ardal. Mae gan yr ysgol ethos Cristnogol ac mae'n hybu'r gwerthoedd a gysylltir â'r ethos hwnnw. Cynhelir cysylltiadau â'r Eglwys drwy ymweliadau cyson Caplan yr ysgol, sy'n Ficer un o'r plwyfi lleol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Dinas Bran</td><td>15 Mai 2006</td><td>Mr Brian W Medhurst</td><td>Dr Michael Snow, Mr Glyn Davies, Mrs Lynn Bithell, Mr Heddwyn Evans, Mrs Mary Crandon</td><td>Ni chafodd ei arolygu</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol gyfun gymysg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Dinas Brân, wedi'i lleoli yn Llangollen a dan ofal Awdurdod Unedol Sir Ddinbych. Mae'n gwasanaethu'r dref a threfi cyfagos Corwen, Y Waun a Wrecsam, yn ogystal ag ardaloedd gwledig eang. Daw tua chwe deg y cant o'r disgyblion o ardaloedd sy'n rhan o Awdurdod Unedol Wrecsam. Mae 1149 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 152 yn y chweched dosbarth. Mae adeiladu'r ysgol wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion 946 o ddisgyblion. Mae tri chwarter y disgyblion yn defnyddio bysiau i gyrraedd a mynd adref o'r ysgol bob dydd, a rhai yn gwneud teithiau hir iawn. Mae gan ychydig dros 10% o'r disgyblion yr hawl i ginio ysgol am ddim. Mae llawer o'r ardaloedd trefol mae'r ysgol yn eu gwasanaethu yn rhai sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf amddifadus yn economaidd yng Nghymru. Mae'r disgyblion yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu lawn, ond mae mwy o ddisgyblion â gallu is na'r cyfartalog na rhai â gallu uwch na'r cyfartalog. Mae gan 24 o ddisgyblion ddatganiad anghenion addysgol arbennig a chydnabyddir yn ffurfiol fod gan 126 o ddisgyblion eraill amrediad o anghenion addysgol arbennig. Mae 53 o ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o agweddau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae 9% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol yn mis Mai 2000. Ers yr arolygiad blaenorol mae'r ysgol wedi ei dynodi yn ysgol ddwyieithog.</td></tr>
<tr><td>Ysgol y Faenol</td><td>16 Mai 2006</td><td>Mr Wil Williams</td><td>Ms Lisa Jane Davies</td><td>Ni chafodd ei arolygu</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ysgol gynradd fechan yw Ysgol y Faenol sy'n darparu addysg i blant pentref Bodelwyddan a'r ardal amgylchynol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn y pentref ond mae nifer sylweddol yn teithio i'w ysgol o'r tu hwnt i'r dalgylch. Ar hyn o bryd mae 113 o ddisgyblion amser llawn a 21 o ddisgyblion meithrin rhan amser yn yr ysgol. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion o gartrefi lle defnyddir Saesneg fel y prif gyfrwng cyfathrebu. Yn ddiweddar bu cynnydd yn nifer y disgyblion o wledydd tramor a dderbyniwyd yn yr ysgol, gydag ychydig dros 10% o'r disgyblion yn dysgu Saesneg fel</td></tr>
</table>

*iaith ychwanegol. Addysgir rhaglenni astudio Cymraeg fel ail iaith. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys ardaloedd breintiedig ac amddifadus. Mae tua 14% o'r disgyblion wedi cofrestru eu hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd yn y sir ac yn genedlaethol. Mae'r disgyblion yn cynrychioli'r amrediad gallu llawn. Mae gan tua 19% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan ddau ddisgybl ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig.*

# Dadansoddiad Adroddiadau Arolygiad
# CYSAG Sir Ddinbych
# 18 Hydref 2006

**DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL**

***Materion Allweddol:*** ***3 Ysgol***

- *Sicrhau bod yr ysgol yn cynnal safon dda mewn Addoli ar y cyd, a drwy gyfrwng hyfforddiant priodol yn datblygu'r agwedd ysbrydol a'r nodweddion hynny sy'n adlewyrchu addoli yn yr Eglwys yng Nghymru. (Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- *Gwella ethos Cymraeg yr ysgol, drwy gynyddu'r defnydd o'r iaith o amgylch yr ysgol ac mewn gwersi. (Ysgol Dinas Brân)*
- *Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion am ddatblygu cynaliadwy a datblygu rhagor o brofiadau ym maes addysg gysylltiedig â gwaith. (Ysgol y Faenol)*

## SYLWADAU CADARNHAOL

**Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig** **3 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar gynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am dreftadaeth nad yw'n Gymreig ac i feithrin y pethau da hynny sy'n perthyn i'w diwylliant hwnnw. Ar ddiwrnod cyntaf yr Arolygiad roedd nifer o ddisgyblion ar fin cychwyn ar eu taith i Ganolfan yr Urdd yn y Bala. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i sylfaenu yng nghynlluniau gwaith yr holl byncia. Mae'n cael lle amlwg mewn hanes a dylunio a thechnoleg trwy waith prosiect ychwanegol. Mewn hanes, mae disgyblion Blwyddyn 8 wedi cynhyrchu llyfryn â llawer o ddarluniadau ar Lwybr Hanes Tref Llangollen. Enillodd disgyblion Blwyddyn 9 wobr Ymddiriedolaeth Blaengarwch Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn 2004 a 2005. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Mae gan yr ysgol hunaniaeth Gymraeg gref iawn. Mae'r Cwricwlwm Cymreig a threftadaeth Cymru yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus drwy gyfrwng pynciau fel hanes, daearyddiaeth a cherddoriaeth a thrwy ymweliadau addysgol pwrpasol yn y gymuned leol. *(Ysgol y Faenol)*

**Cysylltiadau gyda / ymwneud â'r Gymuned Leol** **3 Ysgol**

- Mae'r cysylltiadau â'r Eglwys wedi eu llunio yn bennaf drwy ymweliadau cyson Caplan yr Ysgol, sy'n Ficer yn y plwyf lle lleolir un o'r adeiladau sy'n perthyn i'r ysgol. Nid oes gan y periglor sy'n byw yn agos iawn at adeilad yr ysgol yn safle Llandegla unrhyw gyswllt ffurfiol â'r ysgol; serch hynny, ei wraig yw Cadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgol. Mae gan yr Esgobaeth gysylltiadau â'r ysgol hefyd drwy ei Swyddog Addysg. Mae'r Caplan yn cymryd diddordeb mawr ym mywyd yr ysgol ac mae'n cynnig cymorth rhagorol i'r athrawon a'r disgyblion. Mae'r disgyblion eu hunain yn weithgar ym mywyd yr

eglwysi plwyf a chafodd dau ddisgybl CA2 o'r ysgol sy'n mynychu safle Bryneglwys eu bedyddio yn 2005. Cynhelir rhai gwasanaethau, megis y gwasanaeth Diolchgarwch a'r gwasanaeth Nadolig, yn cael eu cynnal yn yr eglwysi plwyf. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

- Mae'r ysgol wedi llunio partneriaethau buddiol rhwng yr ysgol ac eraill yn y gymuned leol. Mae ganddi gysylltiadau â'r Coleg Amaethyddol lleol, y Comisiwn Coedwigaeth a chrefftwr coed lleol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn rhagorol. *(Ysgol Dinas Brân)*
- (Nodwedd rhagorol) Ymwneud eang staff yr ysgol mewn pwyllgorau lleol sy'n ystyried llywodraeth leol, diwydiant a chyflogaeth, cyfraith a threfn, materion yn ymwneud ag ieuenctid ynghyd â materion yn ymwneud ag eglwysi. *(Ysgol Dinas Brân)*
- (Nodwedd rhagorol) Ystod y gweithgareddau oddi mewn i'r gymuned leol a chymunedau ehangach Glyn Dyfrdwy a ymgymerir gan ddisgyblion ar y Cyngor Eco a'r Cyngor Ysgol. *(Ysgol Dinas Brân)*
- (Nodwedd dda) Ehangder ac ansawdd y cysylltiadau gyda nifer o sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Darparwyd nifer fechan o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymweliadau â busnesau a masnach lleol er mwyn dysgu am fyd gwaith. *(Ysgol y Faenol)*

**Cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb a mentergarwch 2 Ysgol**

- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion a myfyrwyr yn cynnwys cymryd cyfrifoldebau a gweithio ar y cyd â'i gilydd. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Darperir digonoedd o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau yn ystod bywyd dyddiol yr ysgol. *(Ysgol y Faenol)*

**Hyrwyddo Gwerthoedd/Cwrteisi/Parch 2 Ysgol**

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion a myfyrwyr yn cynnwys bod yn ofalgar a chynorthwyol. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Elusennau ac Achosion Da 2 Ysgol**

- Canmolir y disgyblion a'u rhieni am eu cyfraniadau hael i waith mudiadau elusennol, yn lleol, yn genedlaethol a thramor. Yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol casglwyd symiau o arian at waith yr elusennau a ganlyn: *'Harvest Help' 'Water Aid*' ac *'Apêl Tsunami Asia' (Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion a myfyrwyr yn cynnwys dangos consyrn dros eraill trwy godi arian at elusennau lleol a chenedlaethol. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Amcanion / Ethos Cyffredinol** **2 Ysgol**

- Mae gan yr ysgol ethos Cristnogol ac mae'n hyrwyddo'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â'r ethos hwnnw. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion a myfyrwyr yn cynnwys bod yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn barod i helpu'i gilydd ac ymwelwyr â'r ysgol. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Gweithgareddau / Cyfleoedd allgyrsiol** **2 Ysgol**

- Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo cynllun Clybiau Plant Cymru Kids Clubs, sy'n golygu y gall y disgyblion gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae gan yr ysgol 'Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion yr Ysgol' sy'n cynnig cymorth gyda rhai gweithgareddau allgyrsiol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Cyfoethogir profiadau dysgu a chymdeithasol llawer o ddisgyblion gan y gweithgareddau allgyrsiol amrywiol a gynigir gan yr ysgol. Mae'r rhaglenni ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a chynllun Dug Caeredin yn gryfderau neilltuol, gyda llawer o ddisgyblion yn cael llwyddiant. Mae llawer o ddysgwyr hefyd yn cael ystod eang o gyfleoedd trwy gysylltiad agos yr ysgol â'r Eisteddfod Ryngwladol. Mae ymweliadau â theatrau, astudiaethau maes, ymwneud â gweithgareddau cerddorol a theithiau dramor yn helpu cyfoethogi profiadau disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Cynnydd disgyblion / Magu hyder / Meithrin sgiliau** **2 Ysgol**

- Mae rhai nodweddion da yn natblygiad sgiliau sylfaenol a sgiliau allweddol y disgyblion:
  - mae'r ysgol wedi llwyddo i ennill Gwobr Ansawdd Sgiliau Sylfaenol
  - mae'r corff llywodraethol wedi cymeradwyo polisi sgiliau allweddol
  - mae gan bob adran bolisïau llythrennedd a rhifedd
  - mae deunyddiau cymorth i ddatblygu llythrennedd a rhifedd yn cael eu cynnwys yn llyfrau nodiadau'r plant; a
  - bydd sgiliau allweddol yn cael eu hachredu i nifer fechan o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth o eleni ymlaen. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Ceir darpariaeth trawsgwricwlaidd priodol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau cyfathrebu a mathamategol allweddol. *(Ysgol y Faenol)*
- Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau sylfaenol yn dda. Mae cynllun gweithredu blaenoriaethau sgiliau sylfaenol yn cael ei rhoi ar waith yn yr ysgol ar hyn o bryd; mae hwn yn talu sylw penodol i wella sgiliau sillafu a darllen y disgyblion. *(Ysgol y Faenol)*
- Mae'r cyfleoedd drwy'r ysgol i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau datrys problemau yn dda. *(Ysgol y Faenol)*

**Rhaglen / Effaith y ddarpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)** **2 Ysgol**

- Mae'r rhaglenni addysg bersonol, iechyd a chymdeithasol, addysg gysylltiedig â gwaith ac addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn bodloni canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ac maent wedi'u cynllunio'n dda yn y rhaglen addysgu. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Gwneir darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol dda drwy ystod o weithgareddau cwricwlwm a thrwy gyfnodau amser cylch. Mae'r agwedd hon yn cyfrannu'n effeithiol at wella cymhelliant disgyblion i ddysgu a'u cyraeddiadau. *(Ysgol y Faenol)*

**Ymwybyddiaeth o / Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy** **2 Ysgol**

- Mae llawer o nodweddion rhagorol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy yn cynnwys wythnos gweithgareddau yn gysylltiedig â'r Eisteddfod Gydwladol, sy'n llwyr ymroddedig i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Mae darpariaeth datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yr ysgol yn y camau cynnar o gael ei datblygu. Roedd yr ysgol wedi nodi hyn fel maes i'w ddatblygu yn ei adroddiad hunan werthuso ac mae'n flaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol cyfredol. *(Ysgol y Faenol)*

**Cyfle Cyfartal** **2 Ysgol**

- Mae gan yr ysgol bolisïau cynhwysfawr ynghylch Iechyd a Diogelwch, Cyfle Cyfartal, Amddiffyn Plant a Gwrth-fwlio, sy'n unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae gan yr ysgol drefniadau da i gynorthwyo i fynd i'r afael ag anfantais cymdeithasol. Mae'r holl oedolion yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle cyfartal i ddilyn y cwricwlwm a gynigir ac i gymryd rhan ymhob agwedd o fywyd yr ysgol beth bynnag fo'u gallu neu eu cefndir. *(Ysgol y Faenol)*

**Darpariaeth ar gyfer Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol** **1 Ysgol**

- Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda, heb unrhyw wendidau pwysig. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn cynnwys y nodweddion isod:
  - bod yn ofalgar a chymwynasgar
  - cymryd cyfrifoldebau a gweithio gyda'i gilydd
  - parch at ei gilydd, y staff a'r amgylchedd
  - dangos consyrn tuag at eraill drwy godi arian i elusennau lleol a chenedlaethol ac achosion da
  - ymdeimlad clir o dda a drwg
  - cyfeillgar, cwrtais ac yn barod i gynorthwyo ei gilydd ac ymwelwyr i'r ysgol a
  - cael cyfleoedd i addoli'n ddyddiol fel blwyddyn gyfan neu mewn grwpiau tiwtor. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Gwybodaeth/Dealltwriaeth/Ymwybyddiaeth o Ddiwylliannau neu Draddodiadau eraill** **1 Ysgol**

- Mae nodweddion rhagorol o ran ymwybyddiaeth amlddiwylliannol y disgyblion a myfyrwyr, eu parch at amryfaledd a ffordd o fyw pobl eraill. Hybir y rhain yn gryf drwy gysylltiadau diwylliannol yn y gymuned, llawer o gysylltiadau yn y cwricwlwm a chyfoeth o gyfleoedd drwy ymwneud yr ysgol ag Eisteddfod Gydwladol Llangollen. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Ansawdd Addoli ar y Cyd** **1 Ysgol**

- Mae safon ac ansawdd yr addoli yn dda yn gyffredinol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Drwy gyfrwng darlleniadau a chaneuon ystyriol, creqyd naws ysbrydol priodol yn yr addoli dan arweiniad y Caplan. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Roedd rhai o'r disgyblion wedi paratoi lluniau arbennig i gyfleu'r digwyddiadau'n gysylltiedig â'r Pasg ar ffurf tapestri, i'w ddefnyddio yn yr eglwys leol wedyn. Cafwyd gweddïau priodol yn ystod y gweithgareddau addoli, yn cynnwys Gweddi'r Arglwydd a'r Fendith. Roedd ymateb cyffredinol a'r cymryd rhan ymarferol gan y disgyblion yn glodwiw iawn. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Ansawdd Perthnasoedd** **1 Ysgol**

- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion a'r myfyrwyr yn cynnwys parch at ei gilydd, y staff a'r amgylchedd. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Dda a Drwg** **1 Ysgol**

- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion a'r myfyrwyr yn cynnwys ymdeimlad clir o dda a drwg. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Cyfraniad Addoli ar y cyd i Ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol** **1 Ysgol**

- Wrth drafod gyda rhai o'r disgyblion roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o werth addoli, ond nid oeddynt yn frwdfrydig iawn amdano. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Mae gwaith y disgyblion yn y gwersi Addysg Grefyddol a'r profiadau o'r gweithgareddau addoli yn cyfrannu'n fawr at eu datblygiad ysbrydol a moesol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Drwy addoli ar y cyd yn bennaf y daw'r disgyblion yn ymwybodol o'r anghenion sydd gan bobl penodol yn y byd, a'r ffordd orau o gynnig cymorth iddynt. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Cydymffurfio â'r gofyniad statudol i addoli ar y cyd** **1 Ysgol**

- Mae'r nodweddion da yn natblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion a'r myfyrwyr yn cynnwys cyfleoedd i addoli yn ddyddiol fel blwyddyn gyfan neu mewn grwpiau tiwtor. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Natur yr Addoli ar y cyd** **1 Ysgol**

- Mae'r ysgol yn dilyn patrwm addoli wedi'i seilio ar themâu, sy'n cyd-fynd â chynllun addoli y CYSAG lleol, gan roi pwyslais hefyd ar Galendr yr Eglwys a'r prif Wyliau Cristnogol. Darperir adnoddau priodol ar gyfer addoli gan ddefnyddio cyllid gan Ymddiriedolaeth Vaughan Jones, a oedd yn gysylltiedig â'r ysgol. Defnyddir y Beibl fel sail addoli ar y cyd yn yr ysgol. Cedwir cofnod o'r holl wasanaethau addoli. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Datblygiad Ysbrydol** **1 Ysgol**

- Mae gan yr ysgol ddogfen bolisi Datblygiad Ysbrydol hefyd, a chyda'i gilydd mae'r ddwy ddogfen yn ffurfio sylfaen cenhadaeth yr ysgol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Cyfraniad Addysg Grefyddol i Ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol** **1 Ysgol**

- Mae gwaith y disgyblion yn y gwersi Addysg Grefyddol a'r profiadau o'r gweithgareddau addoli yn cyfrannu'n fawr at eu datblygiad ysbrydol a moesol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Polisi Hiliaeth / Hybu Harmoni rhwng bob hil** **1 Ysgol**

- Mae polisi cyfle cyfartal yr ysgol yn llwyddiannus iawn yn ymarferol. Gellir gweld hyn yn nifer y merched sy'n chwarae peldroed, rygbi a chriced a'r bechgyn sy'n chwarae hoci. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Polisi Addoli ar y cyd** **1 Ysgol**

- Mae gan yr ysgol bolisi addoli ar y cyd sy'n nodi diben a gwerth addoli i gymuned yr ysgol, ac sy'n cyd-fynd â'r Weithred Ymddiriedolaeth sydd ganddi. Mae gan yr ysgol ddogfen bolisi Datblygiad Ysbrydol hefyd, a chyda'i gilydd mae'r ddwy ddogfen yn ffurfio sylfaen cenhadaeth yr ysgol. Mae'r ddogfen addoli ar y cyd yn nodi patrwm yr addoli yn yr ysgol a hawliau rhieni i neilltuo eu plant o'r gwasanaethau addoli. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Dinasyddiaeth Fyd-eang / Addysg am y Byd / Cysylltiadau Rhyngwladol** **1 Ysgol**

- Mae llawer o nodweddion rhagorol o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Eco-Gyngor brwdfrydig sy'n cymryd rhan mewn nifer o brosiectau ar safle'r ysgol ac yn y gymuned
- wythnos gweithgareddau yn gysylltiedig â'r Eisteddfod Gydwladol sy'n llwyr ymroddedig i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- y prosiect Comenius, sy'n cysylltu â 5 ysgol arall mewn gwledydd eraill
- llwyddo i ennill Gwobr Ysgol Ryngwladol y Cyngor Prydeinig ddwywaith yn olynol a Gwobr dinasyddiaeth fyd-eang Ysgolion Uwchradd Cymru ar draws yr ysgol gyfan.

*(Ysgol Dinas Brân)*

**Gwaith y Cyngor Ysgol** **1 Ysgol**

- Ffurfiwyd cyngor ysgol yn ddiweddar i alluogi'r disgyblion i gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau yr ysgol. *(Ysgol y Faenol)*

## SYLWADAU NEGYDDOL

**Y Cwricwlwm Cymreig / Y Dimensiwn Cymreig** **2 Ysgol**

- Nid yw natur ddwyieithog yr ysgol yn amlwg ar unwaith. Nid yw'r holl hysbysiadau ac arddangosfeydd o amgylch yr ysgol yn ddwyieithog. Mae'r holl arwyddion cyfeirio yn ddwyieithog. Mae'r defnydd o Gymraeg achlysurol o amgylch yr ysgol ac mewn cynulliadau fel gwasanaethau a chyfnodau tiwtorial yn gyfyngedig. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gallu dwyieithog yn gyfyngedig iawn. *(Ysgol y Faenol)*

**Cynnydd Disgyblion / Meithrin Hyder / Sgiliau** **2 Ysgol**

- Ni chynhaliwyd awdit i fapio'r sgiliau allweddol i ddangos cynnydd ar draws yr holl gyfnodau allweddol. *(Ysgol Dinas Brân)*
- Ni nodir y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau mathemategol allweddol yn y cynllunio ar gyfer pob pwnc. *(Ysgol y Faenol)*
- Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau TGCh yn gyfyngedig iawn.
*(Ysgol y Faenol)*

**Ansawdd Addoli ar y cyd** **1 Ysgol**

- Mae angen gwella cynnwys ysbrydol yr addoli ar y cyd. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Er gwaethaf y ffaith bod cannwyll yn y ddau adeilad i'w ddefnyddio wrth addoli ar y cyd, ni fanteisiwyd ar y cyfle i'w defnyddio yn effeithiol. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Nodau / Ethos Cyffredinol** **1 Ysgol**

- Nid oes unrhyw arwydd gweledol ar adeiladau ysgol, yn yr un o'r ddau safle, i ddynodi ei bod yn ysgol Eglwys. Ac nid oes nemor ddim crybwyll y ffaith yn y dogfennau 'cyn arolygiad' a gyflwynwyd i'r Arolygwr. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*
- Er bod Datganiad Ethos, a fabwysiadwyd gan yr ysgol ac sydd i'w weld yn yr Offeryn Llywodraethu, ni chafodd ei gynnwys yn y Llawlyfr i Rieni nac yn y polisi addoli ar y cyd na pholisïau perthnasol eraill. Dylid ystyried y Datganiad Ethos hwn fel yr hyn sydd wrth graidd holl nodau ac amcanion yr ysgol a dylid ei roi mewn lle amlwg yn holl ddogfennau'r ysgol, yn enwedig y Llawlyfr i Rieni. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Cyfraniad Addoli ar y cyd i Ddatblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol** **1 Ysgol**

- Wrth drafod gyda rhai o'r disgyblion roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o werth addoli, ond nid oeddynt yn frwdfrydig iawn amdano. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Datblygiad Ysbrydol** **1 Ysgol**

- Mae gwendid yn natblygiad ysbrydol disgyblion o ran yr anghysondeb yn ansawdd y profiad ar draws grwpiau tiwtor. *(Ysgol Dinas Brân)*

**Polisi Addoli ar y cyd** **1 Ysgol**

- Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y cofnod gwasanaethau addoli yn cael ei fonitro a'i werthuso yn rheolaidd gan y cydlynydd addoli. *(Ysgol Dyffryn Iâl Adran 50)*

**Ymwybyddiaeth o / Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy** **1 Ysgol**

- Mae darpariaeth datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yr ysgol yn y camau cynnar o gael ei datblygu. *(Ysgol y Faenol)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 18fed Hydref 2006 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **6** | Adroddiad: | **Cyflwyniad gan Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych** |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Cychwynnodd CYSAD drefn o dderbyn cyflwyniad gan ysgol ddethol ym mhob cyfarfod, pan yn bosibl.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Galluogi i'r aelodau gael cipolwg ar un agwedd o'r ddarpariaeth AG yn Ysgol Babanod Gwaenynog.

*Argymhellion:*

I CYSAD:
- derbyn y cyflwyniad gan Ysgol Babanod Gwaenynog, Dinbych
- paratoi llythyrau i ddiolch i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol am y cyflwyniad a wnaed

I'r AALl:

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**

**(CYSAG)**

| Dyddiad y cyfarfod: | | | 18fed Hydref 2006 |
|---|---|---|---|
| Eitem ar y Rhaglen | **7** | Adroddiad | **Adran AG Prifysgol Hope** |

*Cefndir i'r Adroddiad:*

Mae angen i CYSAD arolygu darpariaeth ar gyfer HCA (Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (mewn perthynas ag AG) ar gyfer colegau sy'n anfon myfyrwyr i ysgolion yn yr AALl. Mewn cyfarfod blaenorol, cytunwyd cysylltu gyda sefydliadau o'r fath a chychwyn trafodaeth.

*Pwrpas yr Adroddiad:*

Cynrychiolwyr CYSAD wedi ymweld ag Adran AG Profysgol Hope yn Lerpwl ar 2il Hydref 2006 ac yn adrodd i'r Aelodau ar yr ymweliad.

*Argymhellion:*

I CYSAD: - dderbyn sylwadau'r cynrychiolwyr a ymwelodd â'r coleg;

- gofyn i'r AALl wahodd yr Adran AG yn y coleg i wneud cyflwyniad i gyd-gyfarfod CYSAD yn y dyfodol gyda CYSAD Sir y Fflint a Chonwy;
- gofyn i'r AALl ofyn am ymateb gan ysgolion sy'n derbyn myfyrwyr o'r coleg;
- gofyn i'r AALl drefnu ymweliad â ac o sefydliadau HCA eraill ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol;
- gofyn i'r AALl ystyried 'rhwydwaith cefnogaeth' ar gyfer ANG mewn AG neu gyda chyfrifoldeb am AG

I'r AALl: - gwahodd yr Adran AG i wneud cyflwyniad i gyd-gyfarfod CYSAD;

- gofyn i ysgolion sy'n derbyn myfyrwyr o Brifysgol Hope ar leoliadau AG gynnig sylwadau i CYSAD;
- gwneud trefniadau i sefydliadau HCA eraill dderbyn ymweliad gan gynrychiolwyr CYSAD a gwneud cyflwyniad i gyfarfod CYSAD yn y dyfodol

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol**

**(CYSAG)**

| Dyddiad y Cyfarfod: | | | 10fed Hydref 2006 |
|---|---|---|---|
| Eitem ar y Rhaglen: | **8** | Adroddiad | **Llythyr gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru** |

*Cefndir i'r Adroddiad*

Derbyniodd yr AALl lythyr oddi wrth yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru mewn perthynas â darparu Cyd-addoliad mewn ysgolion.

*Pwrpas yr Adroddiad*

Hysbysu Aelodau CYSAD o bryderon Eglwys Bresbyteraidd Cymru mewn perthynas â Chyd-addoliad mewn ysgolion, a'u hysbysu o ymateb yr AALl i'r llythyr.

*Argymhellion*

I CYSAD: - dderbyn y llythyr gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru mewn perthynas â chyd-addoli mewn ysgolion;

- cydnabod ymateb yr AALl;

I'r AALl:

GOLEUNI Y BYWYD

Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Capel Tabernacl
81 Heol Merthyr
Yr Eglwys Newydd
Caerdydd
CF14 1DD

The Presbyterian Church of Wales Office
Tabernacle Chapel
81 Merthyr Road
Whitchurch
Cardiff
CF14 1DD

Ffôn/Tel: 029 20627465
Ffacs/Fax: 029 20616188
Ebost/Email: swyddfa.office@ebcpcw.org.uk
GwefanWeb Site: www.ebcpcw.org.uk

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref: Lt003.Addoli.240706

Dyddiad/Date: 24/07/2006

**Agenda Eitem Rhif: 8**

**Pob AALl yng Nghymru**

**Par: Addoli ar y cyd**

Yn atodedig wele gopi o ddogfen a fabwysiadwyd gan Gymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn ei gyfarfod blynyddol, a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf.

Nodwyd nifer o bwyntiau a gofynnwyd i mi dynnu eich sylw at y canlynol:

1. Ein bod yn sylweddoli mai ysgolion Uwchradd, fel y dangosodd ymchwil y BBC, yw'r rhai sy'n bennaf euog o beidio gweithredu gofynion y Ddeddf – yn wir tua hanner o ysgolion Uwchradd.
2. Ein bod yn gwerthfawrogi datganiad Y Gweinidog Addysg oedd yn nodi ei bod yn disgwyl i bob ysgol gadw at ofynion deddf gwlad ac felly rydym yn gofyn iddi roi sylw arbennig i sicrhau bod y datganiadau a wneir gennym yn nhri paragraff olaf y ddogfen yn cael eu gwireddu.
3. Ein bod yn gwerthfawrogi y wybodaeth a'r dogfennau dderbyniwyd gan ESTYN ac yn canmol y canllawiau a'r 'Nodweddion o arfer dda' sy'n gynwysiedig ynddynt.
4. Ein bod yn tynnu sylw at yr adnoddau helaeth sydd ar gael yn y Saesneg I gynorthwyo cynnal addoliad ar y cyd trwy we-fannau a llyfrau. Yn y Gymraeg hefyd mae gan *Cyhoeddiadau'r Gair* (catalog ar gael o Cyhoeddiadau'r Gair, PCB Bangor, Safle'r Normal, Adeilad Y Rhos, BANGOR LL57 2PX) ystod eang o lyfrau addoliad. Hefyd mae gwefan Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol (athrawonag.bangor.ac.uk) yn cynnwys deunydd addoliad ar y cyd i ysgolion cynradd ac uwchradd yn Y Gymraeg a'r Saesneg sy'n newydd bob tymor.
5. Ein bod yn apelio ar Adran Cymwysterau a Chwricwlwm Y Cynulliad i sicrhau llawer mwy o adnoddau perthnasol ac amrywiol yn y maes allweddol hwn.
6. Ein bod yn gofyn i bob Awdurdod Addysg yng Nghymru gymeryd y camrau priodol i sicrhau bod addoliad ar y cyd i bob disgybl yn digwydd yn ddyddiol yn eu holl ysgolion ac yn trefnu hyfforddiant mewn swydd addas i'w hathrawon a'u prifathrawon.
7. Ein bod yn gofyn i Gymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru i bwyso ar eu haelodau i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu ac yn rhoi sylw arbennig i baragraff olaf y ddogfen.
8. Ein bod yn annog Cymdeithas CYSAGau Cymru i argymell pob CYSAG i gymeryd eu cyfrifoldeb o fonitro yr addoliad ar y cyd ac hefyd i sicrhau bod hyfforddiant priodol yn digwydd yn y colegau yn eu hardal a bod cyrsiau hyfforddi mewn swydd yn cael eu trefnu.
9. Ein bod yn galw ar Undebau'r athrawon i gynorthwyo ym mhob ffordd posibl i sicrhau bod eu haelodau yn cyfarfod â gofynion y ddeddf a'u bod, fel Undebau, yn hyrwyddo yr hyn a nodir yn nhri paragraff olaf y ddogfen atodedig.
10. Ein bod yn gwahodd gweddill yr Enwadau Cristnogol yng Nghymru i ystyried y ddogfen gan hyderu y byddant hwythau yn mabwysiadu safbwynt cyffelyb ac yn uno gyda ni i geisio dylanwadu i wella'r sefylfa.

Edrychwn ymlaen at eich ymateb i'r ddogfen ac i gynnwys y llythyr hwn a gwahoddir chwi I ohebu gydag Ysgrifennydd ein Hadran Addysg; Mr Rheinallt A Thomas, Heulfryn, 33 Tŷ Mawr, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5LJ.

Yr eiddoch yn gywir

Ifan. Rh. Robert.

**Ifan Rh. Roberts**
**Ysgrifennydd Cyffredinol**

# Addoli ar y cyd mewn Ysgolion

## Safbwynt Eglwys Bresbyteraidd Cymru:

- Rydym yn cefnogi'n gryf bod ysgolion yn parhau i gynnal addoliad ar y cyd mewn ysgolion. Ychydig o alw cyhoeddus sydd yna i roi'r gorau i'r arfer ac mae llawer o gymunedau ffydd eraill yn credu ei fod o fudd, er bod ei bwyslais yn Gristnogol yn bennaf.

- Hoffem bwysleisio bod y Ddeddf yn gorfodi pob ysgol i gynnal Addoliad ar y cyd yn ddyddiol. Mae Addoli ar y cyd (*Collective Worship*) yn unigryw i ysgolion tra bo Cyd addoliad (*Corporate Worship*) yn nodwedd o gymunedau ffydd unigol.

### Manteision addysgol

- Mae Addoli ar y cyd o werth addysgol i blant, pobl ieuanc ac oedolion o fewn cymunedau ysgol a cholegau. Mae'n darparu ffordd o ddatblygu gwerthfawrogiad o a chonsyrn am eraill ac yn fforwm i ymchwilio i werthoedd sy'n cael eu rhannu. Mae'n bwysig bod plant a phobl ieuanc yn cael eu paratoi i ymateb i rai dulliau o addoliad cyhoeddus y maent yn debygol o'u mynychu – angladd, priodas neu fedydd Cristnogol. Profiad sy'n cael ei rannu yw Addoli ar y cyd ac mae ynddo'r potensial i adeiladu cymunedau. Gallai fod y prif, neu hyd yn oed yr unig, brofiad o'i math i'r mwyafrif o blant a phobl ieuanc. Maent yn manteisio hefyd ar y cyfle i ddod i ddeall am ddefodau addoli crefyddau eraill yn ogystal â Christnogaeth.

- Mae Addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithredu a datblygu perthynas gref rhwng yr ysgol a'r cymunedau lleol pan wahoddir arweinwyr crefyddol lleol i gymryd rhan yn yr Addoli ar y cyd.

### Manteision ysbrydol

- Mae gan ysgolion gyfrifoldeb i ddarparu ar gyfer datblygiad ysbrydol er mwyn arfogi'r pobl ieuanc i ddeall mwy amdanynt eu hunain ac i allu ymdopi â digwyddiadau argyfyngus yn eu bywydau. Mae Addoli ar y cyd yn darparu profiad o fyfyrdod, adfyfyrio a gweddi fel arfau ysbrydol.

### Hyfforddiant

- Rhaid i Addoli ar y cyd fod o safon uchel os yw'n mynd i gyfrannu'n arwyddocaol i fywyd ysgol, gan barchu integriti y disgyblion a'r staff, ac yn paratoi cyfleoedd i rai gymryd rhan ar wahanol lefelau.

- Rhaid i Brifathrawon ac eraill sy'n darparu neu'n hyrwyddo Addoli ar y cyd gael eu harfogi'n gywir gyda'r sgiliau addysgu priodol ac adnoddau o safon dda. Nodwn mai ychydig iawn o brofiad mewn arwain Addoli ar y cyd a geir mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a bod Prifathrawon yn aml iawn yn anghymwys i gymell arfer dda. Mae gan *The Training and Development Agency; National College of School Leadership;* yng Nghymru cyrsiau y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) a'r cymunedau ffydd i gyd rannau allweddol i sicrhau bod hyfforddiant ar gael.

### Deddfwriaeth

- Rydym yn bryderus iawn bod nifer uchel o ysgolion Cymunedol yn dewis peidio cyfarfod â gofynion y Ddeddf ar Addoli ar y cyd ac yn osgoi mynd i'r afael â'r sefyllfa.

- Rydym yn ymrwymo i sicrhau bod y Deddf yn cael ei chefnogi a'i gweithredu gan ein bod yn credu ei bod yn ddigon ystwyth i gyrraedd ei hamcanion. Mae llawer o'r problemau ynglŷn ag Addoli ar y cyd yn ymwneud mwy â'r dehongliad o'r Ddeddf ac o'r arweiniad sy'n bodoli (**Cylchlythyr 10/94**) nag o'r Ddeddf ei hun. Gallai datganiad clir o oblygiadau'r Ddeddf i ysgolion ddatrys rhai o'r materion sydd ar hyn o bryd yn creu anfodlonrwydd gyda'r ddeddfwriaeth.